



Y PANEL TROSOLWG ANNIBYNNOL AR WASANAETHAU MAMOLAETH

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Adroddiad Cynnydd
Medi 2020

RHAGAIR

Ar 30 Ebrill 2019, yn dilyn cyhoeddi adolygiad a gynhaliwyd ar y cyd rhwng Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwagedd, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei fod yn rhoi'r gwasanaethau mamolaeth yng nghyn Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf mewn 'mesurau arbennig'.

Fel rhan o becyn o fesurau a luniwyd i gefnogi ei ymyriad, penododd y Gweinidog banel annibynnol i ddarparu'r oruchwyliaeth sy'n angenrheidiol i sicrhau bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn mynd i'r afael â'r methiannau a ganfuwyd gan y Colegau Brenhinol mewn modd amserol, agored a thryloyw sy'n rhoi'r menywod a'r teuluoedd yr effeithiodd yr adolygiad arnynt wrth galon y broses.

Mae gofyn i'r Panel gyflwyno adroddiad cynnydd i'r Gweinidog bob chwe mis. Mae'r adroddiad hwn, sef y pedwerydd a gyhoeddwyd hyd yma, yn cynnwys y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Medi 2020.

Oherwydd ei ddyluniad, mae'r adroddiad hwn yn fwy cryno nag adroddiadau blaenorol. Nid yw'n cynnwys gwybodaeth gefndirol fanwl nac yn ailadrodd y dadansoddiadau a'r casgliadau o adroddiadau blaenorol i raddau helaeth.

Mae modd gweld adroddiadau blaenorol a gwybodaeth arall, gan gynnwys cylch gorchwyl y Panel, [yma](#) neu ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mick Giannasi (Cadeirydd)

Cath Broderick (Aelod Lleyg)

Alan Cameron (Arweinydd Obstetreg)

Christine Bell (Arweinydd Bydwreigiaeth)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth



Mae **Mick Giannasi** (Cadeirydd) yn Gadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru. Roedd yn arfer bod yn Gadeirydd Bwrdd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Bu'n Gomisiynydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn ac yn Brif Gwnstabl Heddlu Gwent.



Mae **Cath Broderick** (Aelod Lleyg) yn Gymrawd Anrhydeddus o Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr, a hi yw awdur yr adroddiad *Gwrando ar Farn Menywod a Theuluoedd am Ofal Mamolaeth Cwm Taf* a gyhoeddwyd yn 2019. Mae ganddi brofiad helaeth o ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd, ac roedd wedi cefnogi'r ymateb i Ymholiad Kirkup ym Mae Morcambe.



Mae gan **Alan Cameron** (Arweinydd Obstetreg) 26 mlynedd o brofiad fel Obstetregydd Ymgynghorol, a chafodd ei benodi'n Arweinydd Clinigol Cenedlaethol Obstetreg a Gynaecoleg ar gyfer Grŵp Cydweithredol yr Alban ar Wella Ansawdd Gwasanaethau Mamolaeth a Phlant yn ddiweddar.



Mae gan **Christine Bell** (Arweinydd Bydwreigiaeth) dros 30 mlynedd o brofiad o weithio fel bydwraig yn Lloegr. Am ddeg o'r rheini bu'n Bennaeth Bydwreigiaeth, ac mae'n Asesydd Bydwreigiaeth dynodedig gyda Choleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr.

TABL CYNNWYS

1	CRYNODEB GWEITHREDOL	1
2	COVID-19	6
3	CYNNYDD YN ERBYN Y CYNLLUN GWELLA MAMOLAETH.....	9
3.1	Mwy o Gynnydd yn Erbyn y Cynllun Gwella Mamolaeth	9
3.2	Cyfngiad ar Lefelau Sicrwydd oherwydd COVID-19.....	10
3.3	Datblygu Dull ledled y Bwrdd Iechyd.....	10
3.4	Cynnydd yn erbyn Camau Gweithredu 'Gwneud yn Ddiogel' y Colegau Brenhinol.....	11
3.5	Datblygu'r Cynllun Gwella Mamolaeth	12
3.6	Asesiad o'r Sefyllfa Bresennol a'r Camau Nesaf.....	12
4	ASESIAD O'R CYNNYDD CYFFREDINOL YN ERBYN YR IPAAF	14
4.1	IPAAF – Disgrifiad Byr	14
4.2	Datblygiadau yn yr IPAAF yn Ystod y Cyfnod Adrodd Presennol	15
4.3	Asesu Presennol yn erbyn Matrics Aeddfedrwydd IPAAF.....	15
4.4	Datblygu'r IPAAF – y Camau Nesaf	16
5	INTEGREIDDIO GWELLIANNAU I'R GWASANAETH NEWYDDENEDIGOL.....	17
5.1	Integreiddio Gwasanaethau Newyddenedigol	17
5.2	Gwella Gwasanaethau Newyddenedigol – y Sefyllfa Bresennol	18
5.3	Trosolwg o Welliant Newyddenedigol – Dull a Rennir.....	18
6	YMGYSYLLTU Â MENYWOD A THEULUEDD	20
6.1	Datblygiadau Diweddar	20
6.2	Gwneud Gwahaniaeth – Effaith Ymgysylltu	21
6.3	Cynnwys Menywod a Theuluoedd.....	22
6.4	Y Camau Nesaf.....	22
7	Y RHAGLEN ADOLYGIADAU CLINIGOL ANNIBYNNOL.....	24
7.1	Y Rhaglen Adolygiadau Clinigol – Statws Presennol	24
7.2	Sicrhau Ansawdd.....	25
7.3	Amserlenni ar gyfer Cyflawni.....	26
7.4	Hunanatgyfeiriadau	26
7.5	Digwyddiadau Difrifol ar ôl Hydref 2018	27
8	YMATEB Y BWRDD IECHYD	28
8.1	Datblygiadau yn Ystod y Cyfnod Presennol.....	28
8.2	Cynnydd yn erbyn Camau Gweithredu'r 'Camau Nesaf'	29

8.3	Penodi Prif Swyddog Gweithredol Newydd.....	29
9	CASGLIADAU, CAMAU NESAF AC ARGYMHELLION	30
9.1	Crynodeb o'r Sefyllfa Bresennol.....	30
9.2	Y Camau Nesaf.....	31
9.3	Argymhellion.....	32
10	RHESTR O ATODIADAU.....	33
11	RHESTR O DERMAU.....	55

1 CRYNODEB GWEITHREDOL

Pan gyflwynodd y Panel ei adroddiad diwethaf ym mis Ebrill 2020, daeth i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd ar y trywydd iawn i gyflawni yn erbyn argymhellion y Colegau Brenhinol. Roedd y Panel hefyd yn credu bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da tuag at ei uchelgais tymor hwy o greu gwasanaeth mamolaeth a newyddenedigol rhagorol y gallai ei staff a'i gymunedau fod yn falch ohono.

Roedd llawer i'w wneud o hyd i gyflawni'r uchelgais honno ac yn sicr doedd dim lle i laesu dwylo. Fodd bynnag, prif bryder y Panel ar y pryd oedd p'un ai a allai'r Bwrdd Iechyd gydgrynhoi ac adeiladu ar ei gyflawniadau cynnar ac yntau'n wynebu pandemig COVID-19 a'i heriau gweithredol ac ymarferol anrhagweladwy, a oedd ond yn megis dechrau dod i'r amlwg.

Chwe mis yn ddiweddarach, er nad oes amheuaeth bod goblygiadau wedi deillio o COVID-19, mae'r Panel yn credu bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud yn **arbennig o dda i barhau i ganolbwyntio a chadw momentwm** mewn amgylchiadau anodd a heriol, a'i fod, yn sgil hynny, wedi gwneud **cynnydd cynyddrannol pellach** yn erbyn ei gynlluniau gwella mamolaeth.

I ddod i'r casgliad hwnnw, mae'r Panel wedi ystyried ystod o dystiolaeth a gwybodaeth sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad a ganlyn. Yn gryno:-

- er gwaethaf pwysau yn y system gofal iechyd fel arall, mae'r Bwrdd Iechyd a'i uwch reolwyr wedi parhau i ymrwymo'n llwyr i'r Rhaglen Gwella Mamolaeth, heb leihau lefel yr ymgysylltiad â'r broses oruchwylio i raddau arwyddocaol;
- mae'r trefniadau rheoli rhaglenni mewnol, sy'n cefnogi'r Rhaglen Gwella Mamolaeth, wedi cael eu cynnal heb golli ffocws na momentwm i raddau arwyddocaol, na leihau adnoddau na chapasiti fel arall;
- mae'r gefnogaeth i Raglen Adolygiadau Clinigol y Panel wedi cael ei chynnal ar yr un lefelau ag yr oedd cyn COVID-19, ac mae staff ychwanegol (gan gynnwys rhai nad oeddent yn gallu gweithio ar y rheng flaen am resymau iechyd a diogelwch) wedi dod i mewn ar sail ad hoc er mwyn cyflymu'r cynnydd.

Mae'r ymrwymiad parhaus a'r momentwm cyson wedi galluogi cynnydd cynyddrannol pellach yn erbyn y Rhaglen Gwella Mamolaeth. Dyma'r camau mwyaf nodedig:-

- mae 12 yn rhagor o'r 79 cam gweithredu yn y Cynllun Gwella Mamolaeth wedi cael eu cyflawni, sy'n golygu bod y cyfanswm sydd wedi'u cyflawni yn 53¹ erbyn hyn (*gweler adran 3*);
- mae dau o'r tri cham gweithredu 'gwneud yn ddiogel' a nodwyd yn adroddiad y Colegau Brenhinol (cynllunio'r gweithlu a chanllawiau) wedi cael eu cyflawni erbyn hyn, sy'n golygu mai dim ond un (newid diwylliannol tymor hir) y mae angen ei sefydlu (*gweler adran 3*);

¹ Yn ogystal â'r 12 cam gweithredu a gyflawnwyd, cafodd 6 arall eu tynnu o'r Cynllun fel rhan o ymarfer cydgrynhoi. Ceir mwy o fanylion yn Adran 3 yr adroddiad ac yn Atodiad A.

- mae cynnydd pellach wedi cael ei wneud yn erbyn y matricesau aeddfedrwydd yn y Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd (IPAAF), ac mae'r tri pharth yn cael eu hasesu fel rhan o'r cam 'CANLYNIADAU' nawr (*gweler adran 4*).

Ar yr un pryd, mae datblygiadau eraill wedi bod, sydd wedi cryfhau capasiti a gallu'r Bwrdd lechyd i gynnal y gwelliannau hynny yn y tymor hwy, yn fwyaf nodedig:-

- mae'r Tîm Gwella Mamolaeth wedi cael ei integreiddio â'r gwasanaeth mamolaeth, sy'n golygu bod modd pontio i ddull gwelliant parhaus sy'n 'eiddo' i staff rheng flaen ac wedi'i sefydlu mewn gweithrediadau o ddydd i ddydd (*gweler adran 8*);
- Mae gwelliant i'r gwasanaeth newyddenedigol wedi'i sefydlu gyda'r Rhaglen Gwella Mamolaeth. Hefyd, cytunwyd ar drefniadau goruchwyllo ar y cyd a sefydlwyd sylfaen ar gyfer gwelliant pellach (*gweler adran 5*);
- mae'r Rhaglen Gwella Mamolaeth wedi cael ei hymestyn i Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr² er mwyn gallu datblygu gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn gyson ar draws ardal y Bwrdd lechyd (*gweler adran 3*);
- mae'r Cynllun Gwella Mamolaeth wedi cael ei ailfodelu i fod yn offeryn mwy deinamig sydd â cherrig milltir a thargedau cliriach, yn ogystal â ffocws tymor hwy ar welliant parhaus y tu hwnt i argymhellion y Colegau Brenhinol (*gweler adran 3*);
- er bod COVID-19 wedi atal y rhaglen ymgysylltu a chyfathrebu rhag cael ei chyflwyno'n llawn, mae'r Bwrdd lechyd wedi datblygu ffyrdd newydd o gyfathrebu â menywod drwy ddefnyddio mwy ar gyfryngau cymdeithasol ac ymgysylltu rhithiol drwy'r fforwm My Maternity My Way (*gweler adran 6*);
- mae cynnydd cadarn wedi cael ei wneud yn erbyn y rhan fwyaf o'r 14 cam gweithredu a nodir fel 'camau nesaf' yn adroddiad blaenorol y Panel (*gweler adran 8*).

Er gwaethaf y cynnydd pellach hwn, mae'n bwysig pwysleisio bod llawer o waith i'w wneud o hyd er mwyn cyflawni argymhellion y Colegau Brenhinol, ac mae mynd ar drywydd statws rhagorol yn dal yn uchelgais tymor hwy. Yn benodol:-

- mae nifer o argymhellion y Colegau Brenhinol yn dal heb eu cyflawni ac, er eu bod ar y gweill, maent yn ymwneud yn bennaf â meysydd fel newid diwylliant a chapasiti arwain, a fydd yn cymryd amser i'w sefydlu (*gweler adran 3*);
- mae gwaith i'w wneud o hyd i roi cynlluniau gwella ar waith yn llawn mewn meysydd fel rheoli pryderon a chwynion, a bydd angen cyflawni'r rhaglen waith sy'n deillio o weithgareddau ymgysylltu cynharach (*gweler adran 8*);

² Cafodd adolygiad y Colegau Brenhinol ei gynnal yn ardal Cwm Taf gynt, a dim ond i Ysbyty Tywysog Cymru ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg mae'r trefniadau i uwchgyfeirio'r mesurau arbennig yn berthnasol. Fodd bynnag, ers yr amser hwnnw, mae'r Bwrdd lechyd wedi cymryd cyfrifoldeb dros wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol sy'n cael eu darparu yn Ysbyty Tywysoges Cymru. Er nad yw Ysbyty Tywysoges Cymru mewn mesurau arbennig, mae'n bwysig bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n gyson ac mae'r Bwrdd lechyd wedi cytuno i weithio gyda'r panel i sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni.

- er bod integreiddio gwasanaethau newyddenedigol yn y Rhaglen Gwella Mamolaeth wedi bod yn gam ymlaen o ran darparu gwasanaeth di-dor i fenywod a theuluoedd, mae wedi golygu gwaith ychwanegol a mwy o gymhlethdod, a rhaid rheoli hyn yn ofalus (*gweler adran 5*).

Yn ogystal â hyn, mae rhai gweithgareddau (ymysg y rhai mwyaf nodedig mae rhaglenni datblygu arweinyddiaeth, newid diwylliant a hyfforddiant cyfathrebu) wedi cael eu gohirio o ganlyniad i COVID-19 ac mae pwysau gweithredol wedi amharu ar gynnydd mewn meysydd pwysig fel rheoli salwch, cwblhau cynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol a chydymffurfiad PADR.

Mae hefyd yn bwysig pwysleisio, er bod technoleg rithiol yn cael ei defnyddio mewn modd arloesol, ei bod yn anochel bod y sefyllfa wedi cyfyngu ar y cyfleoedd i ymgysylltu â menywod a theuluoedd ac roedd yn rhaid gohirio rhai elfennau o ddewis. Er enghraifft, roedd y Bwrdd Iechyd o'r farn ei bod yn angenrheidiol cau Uned Geni Tirion yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg er mwyn rheoli effaith salwch cysylltiedig â COVID-19 yn ddiogel.

Bydd angen adsefydlu ac adfywio'r holl bethau hyn cyn gynted ag y bo'r sefyllfa bresennol yn caniatáu hynny, oherwydd maent yn hollbwysig er mwyn sicrhau gwelliant cynaliadwy yn y tymor hwy. Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau i wneud hynny ond mae'n bwysig bod unrhyw oedi yn cael ei leihau i'r graddau mwyaf posibl. Mae'r materion hyn a materion eraill yn cael eu hadlewyrchu yn y 'camau nesaf' sy'n cael eu nodi drwy'r adroddiad a'u crynhoi yn Adran 9 fel ffocws y dylai'r Bwrdd Iechyd roi sylw iddo yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

I gloi'r Crynodeb Gweithredol hwn, mae dau beth pwysig yr hoffai'r Panel eu pwysleisio; cafeat am y cynnydd sydd wedi cael ei wneud dros y chwe mis diwethaf yw un, a chyfle sy'n dod i'r amlwg yng nghan nesaf taith y Bwrdd Iechyd tuag at welliant yw'r llall.

Mae'r cafeat yn un pwysig. Yn ystod y chwe mis diwethaf, does dim amheuaeth bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd pellach yng nghyswllt ei gynlluniau gwella mamolaeth, yn enwedig o ran cyflawni yn unol ag argymhellion y Colegau Brenhinol. Drwy ei fecanweithiau sicrwydd mewnol, mae wedi dod i'r casgliad bod 12 yn rhagor o argymhellion y Colegau Brenhinol wedi cael eu cyflawni a'u sefydlu mewn ymarfer gweithredol.

Fel y gwnaed yn flaenorol, mae'r Panel wedi asesu'r dystiolaeth y mae'r Bwrdd Iechyd wedi seilio ei benderfyniad i gymeradwyo'r argymhellion hynny arni ac, mewn termau cyffredinol, mae sicrwydd rhesymol bod y penderfyniadau hynny'n briodol. Fodd bynnag, gan ystyried y cyfyngiadau yn sgil COVID-19, nid yw'r broses ddilysu wedi bod mor gadarn ag y byddai wedi bod dan amgylchiadau eraill. Yn benodol:-

- mae'r broses adolygu tystiolaeth wedi cael ei chyfyngu i asesu tystiolaeth ar bapur a sgysiau treiddgar gydag uwch reolwyr a chlinigwyr yn defnyddio technoleg o bell;
- nid oes unrhyw gyfle wedi bod i roi'r dystiolaeth ar bawf drwy gynnal ymweliadau ag unedau gweithredol a chynnal sgysiau strwythuredig â staff mewn lleoliadau gweithredol;

- mae rhai o'r trefniadau monitro yr arferai'r Panel ddibynnu arnynt ar gyfer dilysrwydd (e.e. arolwg PALS o brofiadau menywod) wedi cael eu hatal dros dro;
- mae cyfle cyfyngedig wedi bod i driongli asesiadau'r Panel â thystiolaeth a gwybodaeth o ffynonellau eraill, ac mae gweithgareddau ymchwilio ar y safle a gynhelir gan gyrff archwilio allanol (e.e. Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru) a sefydliadau eraill (e.e. Addysg a Gwella Iechyd Cymru a'r Cyngor Iechyd Cymuned) wedi cael eu hatal, eu hailraglennu neu eu cynnal o bell.

Mae'r Panel yn ei ystyried yn galonogol bod trefniadau monitro a sicrwydd mewnol y Bwrdd Iechyd wedi cael eu cryfhau'n gynyddrannol dros y deunaw mis diwethaf a does dim rheswm penodol i amau cadernid ei asesiad mewnol. Fodd bynnag, mae'n golygu bod lefel y sicrwydd annibynnol y gellir ei roi yn fwy cyfyngedig nag y bu ar achlysuron blaenorol.

Ar y sail honno, yn ystod y cyfnod adrodd nesaf, bydd angen i'r Panel ailymweld â rhai o'r argymhellion y nodir eu bod wedi'u cyflawni yn ystod y cyfnod presennol er mwyn sicrhau eu bod wedi cael eu sefydlu mewn ymarfer gweithredol ac yn parhau i fod ar waith. Bydd y broses honno'n cael ei hymgorffori ym mlaen-gynlluniau'r Panel.

Mae'r cyfle sy'n dod i'r amlwg yn ymwneud â'r camau nesaf yn y Rhaglen Adolygiadau Clinigol. Gyda chymorth y Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru, mae cyflymder a momentwm y Rhaglen Adolygiadau Clinigol wedi cael eu cynnal drwy gydol y cyfnod presennol, er gwaethaf y cyfyngiadau ar deithio a chyswllt cymdeithasol a roddwyd ar waith yn sgil COVID-19.

O ganlyniad i hyn, mae'r ymarfer o edrych yn ôl ar 2016-18 wedi hen ddechrau ac, yn ystod y cyfnod adrodd nesaf, bydd y Panel yn dechrau ysgrifennu at y menywod a'r teuluoedd sydd yn y grŵp cyntaf (y categori marwolaethau a morbidrwydd ymysg mamau) i rannu canfyddiadau unigol yr adolygiad. Rhagwelir hefyd y bydd y Panel yn cynhyrchu ei adroddiad cyntaf ar gyfer y cyhoedd tua diwedd y flwyddyn, a fydd yn crynhoi'r prif themâu sy'n codi o'r categori hwn.

Does dim dwywaith y bydd hwn yn gyfnod anodd a all beri straen i'r menywod a'r teuluoedd dan sylw, yn ogystal ag aelodau o staff y Bwrdd Iechyd. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr holl adnoddau a mecanweithiau angenrheidiol ar waith i ddarparu'r cymorth emosiynol, ymarferol a gweinyddol y bydd ei angen i gefnogi'r broses cyn i'r wybodaeth gael ei rhannu â menywod a theuluoedd, neu ei rhyddhau i'r parth cyhoeddus.

Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd esbonio beth mae wedi'i wneud ers adolygiad y Colegau Brenhinol i wneud ei wasanaethau'n fwy diogel ac yn fwy effeithiol. Yn ogystal â hyn, bydd angen iddo ddangos bod diwylliant y sefydliad wedi newid hefyd. Yn benodol, bydd angen iddo ddangos bod y menywod a'r teuluoedd mae ei fethiannau blaenorol wedi cael yr effaith fwyaf arnynt yn rhan flaenllaw o sut mae'n meddwl ac yn dangos ymrwymiad gwirioneddol i weithio i wella mewn modd agored, tryloyw, ymatebol a thosturiol.

Mae uwch arweinwyr y sefydliad wedi nodi bod hwn yn gyfle sylweddol i ailadeiladu ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd ac mae'n datblygu ei gynlluniau yn unol â hynny.

Fodd bynnag, byddai'r Panel yn annog y Bwrdd i'w sicrhau ei hun bod y cynlluniau hynny'n ddigon cynhwysfawr a chadarn i reoli beth fydd heb os yn gam pwysig ymlaen yn ei daith tuag at wella, ac yn un a allai fod yn anodd.

Y CAMAU NESAF - Cam 1: Byddai'r Panel yn annog y Bwrdd lechyd i gymryd camau i'w sicrhau ei hun bod y cynlluniau y mae wrthi'n ei datblygu i reoli'r broses o roi adborth ar adolygiadau clinigol yn gadarn ac yn gynhwysfawr.

2 COVID-19

Wrth i'r Panel ddechrau drafftio ei adroddiad blaenorol ym mis Mawrth 2020, roedd maint ac effaith y bygythiad oedd yn gysylltiedig â COVID-19 yn dechrau ymddangos. Yn yr amgylchiadau, fe wnaeth y Panel gwestiynu'n breifat a oedd yn realistig disgwyl i'r Bwrdd lechyd gynnal ei Raglen Gwella Mamolaeth o ystyried bod materion gweithredol a sefydliadol nad oedd modd eu rhagweld ddechrau dod i'r amlwg. Yn sicr, yn ystod camau cynnar paratoadau'r Bwrdd lechyd ar gyfer y feirws, roedd yn edrych yn fwyfwy tebygol y byddai aelodau'r Tîm Gwella Mamolaeth, sef 'gyrwyr' y rhaglen welliant, yn gorfod cael eu hadleoli i fod ar y rheng flaen er mwyn llenwi bylchau mewn rolau gweithredol a achosir gan salwch cysylltiedig â COVID-19.

Dan yr amgylchiadau, fe wnaeth uwch arweinwyr y Bwrdd lechyd gadw eu pennau ac osgoi'r angen i ohirio neu atal y rhaglen. Fodd bynnag, ni ddylid bychanu'r pwysau gwrthdrawiadol oedd yn rhan o wneud y penderfyniad hwnnw. Mae'r ffaith bod y rhaglen nid yn unig wedi cael ei chynnal, ond hefyd wedi'i hategu gan staff nad oeddent yn gallu ymgymryd â dyletswyddau ar y rheng flaen, yn brawf o agwedd benderfynol y Bwrdd lechyd, a'r Uwch Swyddog Cyfrifol a'r Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth yn enwedig, i gwblhau'r gwaith a ddechreuwyd o ran gwella gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol. O ganlyniad i hyn, mae cynnydd pellach sylweddol wedi cael ei wneud a dyna pam, yn ei asesiad cyffredinol, mae'r Panel yn mynegi bod y Bwrdd lechyd wedi gwneud yn **arbennig o dda** i gadw ffocws a momentwm.

Er bod effaith bosibl COVID-19 ar y Rhaglen Gwella Mamolaeth wedi cael ei lliniaru i raddau sylweddol, does dim amheuaeth bod rhai goblygiadau wedi bod. Mae'r Bwrdd lechyd a'r Panel wedi gorfod addasu eu harferion gwaith yn sylweddol ac, er bod arferion gweithio o bell wedi cael eu defnyddio'n effeithiol, dydy cynadleddau fideo, galwadau ffôn a sgysiau dros e-bost ddim yn gallu disodli cyswllt wyneb yn wyneb a rhyngweithio â phobl eraill. Mae hyn wedi esgor ar rywfaint o heriau gweinyddol ac o ran logisteg, er bod pobl wedi gweithio drwyddynt a'u datrys yn yr un ysbryd cydweithredol â'r un sydd wedi bod rhwng y Panel a'r Bwrdd lechyd ers dechrau'r broses oruchwyllo.

Un o brif oblygiadau'r cyfyngiadau COVID-19 yw bod cyfyngiad sylweddol wedi bod ar gyfleoedd y Panel a'r Bwrdd lechyd i ymgysylltu'n uniongyrchol â menywod a theuluoedd. Mae'r un peth yn berthnasol i allu'r Panel i ymgysylltu â staff. Mae dulliau cyfathrebu gwahanol wedi cael eu datblygu ac mae'r rhain wedi bod yn fuddiol mewn rhai meysydd, ond eto, nid ydynt yn disodli rhyngweithio â phobl eraill, yn enwedig wrth ddelio â materion mor sensitif ac emosiynol. Felly, er y bydd buddion y dulliau amgen hyn yn cael eu cynnal a'u datblygu wrth symud ymlaen, mae'n bwysig ailddechrau ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl cyn gynted â bod hynny'n bosibl.

Yn hynny o beth, mae'r Panel wedi creu Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer Cyfathrebu ac Ymgysylltu er mwyn rheoli'r broses o ddychwelyd at 'normal newydd', ac mae cynllun gweithredu wedi cael ei ddatblygu ar y cyd rhwng y Bwrdd Iechyd, y Cyngor Iechyd Cymuned a grŵp ffocws bach o fenywod a theuluoedd er mwyn symud hyn yn ei flaen.

Er bod y Bwrdd Iechyd *wedi* gwneud yn dda i liniaru effaith COVID-19 ar y Rhaglen Gwella Mamolaeth, mae rhai canlyniadau sefydliadol a gweithredol a fydd yn effeithio ar gam nesaf y daith tuag at welliant. Ni ddylid bychanu'r effaith bosibl.

Mae'r Panel wedi gweld staff ar bob lefel yn gweithio'n ddiflino a gydag ymroddiad enfawr i gydbwyso'r gofynion sy'n gwrthdaro wrth gynnal gweithrediadau o ddydd i ddydd, ymateb i ofynion clinigol a sefydliadol y pandemig COVID-19, a pharhau i wthio'r broses gwella mamolaeth yn ei blaen. Ar ryw gam, bydd angen i'r bobl hyn adfer a chael eu cefn atynt ac efallai y dylid disgwyl i gyflymder y cynnydd sefydlogi yn ystod y cyfnod adrodd nesaf. Bydd y panel yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i wneud yn siŵr bod y momentwm ddim yn cael ei golli; fodd bynnag, efallai bod angen bod yn realistig am yr hyn y gellid ei gyflawni yn ystod y cyfnod nesaf.

Hefyd, mae nifer o feysydd lle mae gweithgareddau gwella wedi cael eu gohirio o ganlyniad uniongyrchol i COVID-19 ac eraill lle mae pwysau gweithredol wedi amharu ar gynnydd, neu ei wrthdroi mewn rhai achosion. Bydd angen mynd i'r afael â'r holl bethau hyn yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf, a bydd hynny'n defnyddio amser a chapasiti sefydliadol a fyddai fel arall wedi cael ei ddefnyddio i wneud cynnydd cynyddrannol pellach yn erbyn y Cynllun Gwella Mamolaeth. Er enghraifft:-

- mae gweithgareddau hyfforddiant a datblygu allweddol, gan gynnwys y rhaglenni datblygu arweinyddiaeth, newid diwylliant a hyfforddiant cyfathrebu, wedi cael eu hatal dros dro;
- mae rhwystrau cysylltiedig â COVID-19 wedi codi mewn meysydd fel lefelau salwch, cydymffurfiaid PADR, cwblhau cynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol a chydymffurfio â hyfforddiant gorfodol lle bo gwelliannau perfformiad cynnar wedi cael eu cyflawni;
- er bod ffyrdd newydd ac arloesol o ymgysylltu â menywod a theuluoedd wedi cael eu canfod yn absenoldeb cyswllt wyneb yn wyneb, mae'n anochel bod y gwaith o gyflwyno rhaglen ymgysylltu gynhwysfawr 2020/23 wedi cael ei atal;
- mae rhai elfennau o'r gwasanaeth mamolaeth, gan gynnwys rhai sy'n rhoi dewis i fenywod a theuluoedd, wedi cael eu lleihau hefyd – yn enwedig Canolfan Eni Tirion yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, a gafodd ei gorfodi i gau oherwydd salwch cysylltiedig â COVID-19.

Bydd angen mynd i'r afael â'r holl bethau hyn cyn gynted ag y bo'r sefyllfa bresennol yn caniatáu hynny, oherwydd maent yn hollbwysig er mwyn sicrhau gwelliant cynaliadwy yn y tymor hwy. Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu cynlluniau i wneud hynny ac mae eisoes wedi dechrau gwneud cynnydd. Fodd bynnag, mae'n anochel y bydd adfer yr holl bethau mae COVID-19 wedi effeithio arnynt yn dargyfeirio sylw ac egni a fyddai fel arall yn cael ei roi tuag at gyflawni gwelliannau pellach. Mae hefyd yn bwysig bod unrhyw oedi o ran dychwelyd i 'normalrwydd' yn cael ei leihau i'r graddau mwyaf posibl er mwyn sicrhau nad yw'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud yn ystod deunaw mis cyntaf y rhaglen yn cael ei golli.

Y CAMAU NESAF - Cam 2: Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu effaith COVID-19 yn nhermau'r gweithgareddau neu'r prosesau hynny sydd wedi cael eu gohirio neu eu hatal, wedyn cymryd y camau gweithredu angenrheidiol i'w hadsefydlu neu eu hadfywio ar y cyfle cyntaf sy'n codi.

3 CYNNYDD YN ERBYN Y CYNLLUN GWELLA MAMOLAETH

Mae'r Cynllun Gwella Mamolaeth yn rhan ganolog o broses wella'r Bwrdd Iechyd. Mae'r Cynllun Gwella Mamolaeth yn cynnwys 79 cam gweithredu. Roedd 70 o'r rheini'n deillio'n uniongyrchol o argymhellion y Colegau Brenhinol, a'r gweddill yn deillio o adolygiadau cysylltiedig neu gamau gweithredu a nodwyd gan y Bwrdd Iechyd yn dilyn ei ddadansoddiad ei hun. Pan gyflwynodd y Panel ei adroddiad diwethaf ym mis Ebrill 2020, roedd 41 o'r 79 cam gweithredu yn y cynllun wedi cael eu cyflawni ac roedd y gweddill ar y gweill.

3.1 MWY O GYNNYDD YN ERBYN Y CYNLLUN GWELLA MAMOLAETH

Yn ystod y cyfnod adrodd presennol, fe wnaeth y Panel asesu tystiolaeth a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd a dod i'r casgliad bod 12 yn rhagor o gamau gweithredu wedi'u cyflawni. Mae hyn yn golygu bod cyfanswm y camau sydd wedi'u cyflawni yn 53³ erbyn hyn. Yn ogystal â hyn, ailddilyswyd 5 o'r camau gweithredu eraill y nodwyd eu bod wedi'u cyflawni yn ystod y cyfnodau eraill. O ystyried bod hyn wedi digwydd tra oedd y Bwrdd Iechyd yn ymateb i COVID-19, mae'n cynrychioli cynnydd pellach sylweddol.

Mae rhai o'r camau gweithredu sydd wedi cael eu cyflawni yn ystod y cyfnod hwn yn gamau sylweddol ymlaen yn nhaith gyffredinol y Bwrdd Iechyd tuag at welliant, ac yn cryfhau'r sylfeini ar gyfer gwasanaeth diogel ac effeithiol sy'n cael ei reoli a'i arwain yn dda, yn ogystal â chanolbwyntio ar anghenion defnyddwyr y gwasanaeth. Yn benodol:-

- mae'r gwaith sydd wedi cael ei wneud i **adolygu a diweddarau'r canllawiau ar famolaeth** wedi cael ei gwblhau erbyn hyn. Nawr mae system gadarn ar waith i sicrhau, wrth symud ymlaen, bod y canllawiau diwygiedig yn cael eu harchwilio'n rheolaidd, yn cael eu defnyddio'n amlddisgyblaethol a bod eu hansawdd yn cael ei sicrhau (*argymhelliad 7.2*);
- mae'r **systemau ar gyfer cofnodi digwyddiadau** wedi cael eu cryfhau drwy ddefnyddio mwy ar Datix, gwella hyfforddiant, a chyflwyno fforymau amlddisgyblaethol er mwyn cynnwys staff meddygaeth a bydwreigiaeth yn y gwaith o adnabod, asesu ac adrodd ar ddigwyddiadau niweidiol (*argymhellion 7.15*);
- yn yr un modd, mae'r prosesau sydd ar waith i sicrhau bod **yr hyn a ddysgir o ddigwyddiadau difrifol** yn cael ei rannu â staff ar bob lefel mewn fformat rheolaidd a hygyrch, wedi cael eu hadolygu a'u cryfhau (*argymhellion 7.22*);
- mae'r fforwm **My Maternity My Way** wedi cael ei ailddatblygu a'i adfywio i'r graddau bod y Colegau Brenhinol wedi nodi mai hwn yw'r fforwm ymgysylltu effeithiol oedd ar goll (*argymhelliad 7.47*);

³ Yn ogystal â'r 12 cam gweithredu a gyflawnwyd, cafodd 6 arall eu tynnu o'r Cynllun fel rhan o ymarfer cydgrynhoi. Ceir mwy o fanylion yn Adran 3 yr adroddiad ac yn Atodiad A.

- mae digon o gynnydd wedi cael ei wneud o ran y ffordd mae'r gwasanaeth yn ymgysylltu â menywod a theuluoedd i ddod i'r casgliad bod y **model ymgysylltu** mae'r Colegau Brenhinol yn ei argymhell wedi cael ei roi ar waith i raddau helaeth, a'i fod yn adnodd 'busnes fel arfer' i'r gwasanaeth mamolaeth erbyn hyn (*argymhellion 7.49 a 7.52*);
- mae'r gwelliannau a nodir gan y Colegau Brenhinol o ran **dulliau gweithio meddygon ymgynghorol, cyflenwi swyddi meddygon ymgynghorol, goruchwyllo hyfforddeion meddygol a datblygu rhaglenni addysgu amlddisgyblaethol** wedi cael eu datblygu i'r graddau bod y Bwrdd Iechyd yn ystyried eu bod wedi'u sefydlu mewn ymarfer gweithredol erbyn hyn (*argymhellion 7.32 a 7.37*).

Mae manylion llawn y 12 cam gweithredu yr asesir eu bod wedi'u cyflawni yn ystod y cyfnod adrodd presennol wedi'u nodi yn y tabl yn *Atodiad A*.

3.2 CYFYNGIAD AR LEFELAU SICRWYDD OHERWYDD COVID-19

Er bod y cynnydd pellach sydd wedi'i wneud dros y chwe mis diwethaf yn galonogol, mae'n bwysig pwysleisio, o ganlyniad i'r cyfyngiadau yn sgil COVID-19, nad yw'r broses ar gyfer dilysu cyflawniad y gyfran bresennol o gamau gweithredu wedi bod mor gadarn ag yr oedd yn ystod y cyfnodau adrodd blaenorol. Caiff y rhesymau am hynny eu hesbonio'n fanylach yn adran 1 o'r adroddiad ac, er mwyn bod yn gryno, nid ydynt yn cael eu hailadrodd yma. Yn unol â hynny, bydd angen i'r Panel ailymweld â rhai o'r camau gweithredu y nodir eu bod wedi'u cyflawni yn ystod y cyfnod presennol er mwyn sicrhau eu bod wedi cael eu sefydlu mewn ymarfer gweithredol.

3.3 DATBLYGU DULL LEDLED Y BWRDD IECHYD

Roedd adolygiad y Colegau Brenhinol yn ymwneud yn benodol â'r gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol a ddarperir ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf gynt (Ysbyty Tywysog Cymru ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg). Fodd bynnag, ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, mae ffiniau daearyddol y Bwrdd Iechyd wedi newid ac mae bellach yn gyfrifol am y gwasanaethau yn Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr hefyd.

Er nad yw Ysbyty Tywysoges Cymru yn rhan o drefniadau'r mesurau arbennig, mae'n bwysig bod y gwasanaethau'n cael eu datblygu'n gyson ar draws ardal newydd y Bwrdd Iechyd. Yn hyn o beth, gyda chytundeb Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Iechyd, mae'r Panel wedi bod yn cynnal 'briff gwyllo' ar ddarpariaeth y gwasanaethau ar y safle ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Ym mis Mehefin 2020, yn sgil archwiliad clinigol rheolaidd a gynhaliwyd gan y Bwrdd Iechyd, nodwyd rhai meysydd i'w datblygu ar safle Ysbyty Tywysoges Cymru, ac fe luniwyd cynllun gweithredu i fynd i'r afael â nhw. Er bod y ffaith bod y problemau wedi cael eu canfod yn fewnol yn awgrymu bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd, roedd hyn yn ysgogiad i ailfeddwl sut gellid rhoi sicrwydd bod gwasanaethau'n cael eu datblygu'n gyson ledled y Bwrdd Iechyd.

O ganlyniad i hyn, ym mis Gorffennaf 2020, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd asesiad manwl o 41 cam gweithredu y Cynllun Gwella Mamolaeth y nodwyd eu bod wedi'u cyflawni ar safleoedd Ysbyty Tywysog Cymru ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg, er mwyn asesu a oedd tystiolaeth i ddangos lefel debyg o gydymffurfiaid ar safle Ysbyty Tywysoges Cymru. Nodwyd bod angen gwneud rhywfaint o waith adfer, ond canlyniad cyffredinol yr ymarfer oedd bod tystiolaeth i ddangos bod safonau cyson yn cael eu darparu ar draws y tri ysbyty.

Ar ôl ymgynghori â Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Iechyd, cytunodd y Panel, wrth adolygu tystiolaeth o gyflawniad yn erbyn y Cynllun Gwella Mamolaeth o'r pwynt hwnnw ymlaen, mai dim ond os oedd tystiolaeth bod camau gweithredu yn cael eu cyflawni yn y tri safle y byddai'n nodi eu bod wedi'u cyflawni. Mae'r 12 cam gweithredu y nodir eu bod wedi'u cyflawni yn ystod y cyfnod adrodd presennol wedi cael eu hasesu ar y sail honno. O ganlyniad i hynny, mae sylfaen wedi cael ei sefydlu a gall gwelliannau gael eu cyflawni yn unol â'r sylfaen honno ledled y Bwrdd Iechyd o hyn ymlaen.

3.4 CYNNYDD YN ERBYN CAMAU GWEITHREDU 'GWNEUD YN DDIOGEL' Y COLEGAU BRENHINOL

Yn ei adroddiadau cynnar, roedd y Panel yn canolbwyntio ar y cynnydd roedd y Bwrdd Iechyd yn ei wneud i fynd i'r afael â'r 11 cam gweithredu 'gwneud yn ddiogel' y nododd y Colegau Brenhinol bod angen rhoi sylw iddynt ar frys oherwydd goblygiadau diogelwch posibl.

Pan gyflwynodd y Panel ei adroddiad diwethaf ym mis Ebrill 2020, roedd tri o'r camau gweithredu hynny'n dal ar y gweill. Roedd rhesymau dyls am hynny, ac roedd camau lliniaru wedi'u sefydlu er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn ddiogel tra oedd gweddill y gwaith yn cael ei wneud. Fodd bynnag, galwodd y Panel ar y Bwrdd Iechyd i wneud ymdrech fwriadus i ddatrys y camau gweithredu oedd yn dal heb eu cyflawni er mwyn cyrraedd pwynt lle gellid marcio eu bod wedi cael eu cyflawni.

Yn ystod y cyfnod adrodd presennol, mae'r Panel wedi parhau i fonitro cynnydd yn erbyn tri cham gweithredu nad ydynt wedi'u cyflawni eto, ac mae diweddariad yn cael ei roi yn *Atodiad B*.

Gwelir bod dau o'r camau gweithredu 'gwneud yn ddiogel' (un yn ymwneud â'r adolygiad o ganllawiau a'r llall yn ymwneud â darparu lefelau staff priodol) wedi cael eu cyflawni'n llwyr, tra mae'r trydydd (sy'n ymwneud â newid diwylliant) yn ddatblygiad tymor hwy sy'n cael ei adlewyrchu yng nghynlluniau gwella sefydliadol ehangach y Bwrdd Iechyd, ac yn cael ei godi yn nifer o'r camau gweithredu sy'n dal heb eu cyflawni fel rhan o'r Cynllun Gwella Mamolaeth.

Ar sail hyn, yn hytrach na chynnal trosolwg cyffredinol fel rhan o'i drefniadau monitro parhaus, nid yw'r Panel yn bwriadu adrodd ar elfen 'gwneud yn ddiogel' adolygiad y Colegau Brenhinol mewn adolygiadau yn y dyfodol, oni bai fod datblygiadau pellach yn golygu bod hynny'n angenrheidiol.

3.5 DATBLYGU'R CYNLLUN GWELLA MAMOLAETH

Mae'r Cynllun Gwella Mamolaeth yn rhan ganolog o daith y Bwrdd Iechyd tuag at welliant ac mae wedi esblygu'n gynyddrannol dros y 12 mis diwethaf. Pan gyflwynodd y Panel ei adroddiad diwethaf ym mis Ebrill 2020, daeth i'r casgliad, er bod y cynllun wedi gwella'n helaeth o ran ei fformat a'i strwythur, bod cyfleoedd i'w wella ymhellach o hyd.

Mae'r Panel yn falch o ddweud bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud ymdrech fwriadus i gryfhau'r cynllun ac mae bellach yn fframwaith mwy cywrain ar gyfer darparu gwelliant parhaus yn y tymor hwy, ac yn offeryn effeithiol ar gyfer rheoli'r gwaith o gyflawni'r rhaglen.

Yn benodol, mae fersiwn diweddaraf y cynllun yn fwy deinamig ac yn caniatáu i'r camau gweithredu ychwanegol sy'n codi o waith gwelliant parhaus y Bwrdd Iechyd gael eu cysoni. Mae hefyd yn cynnwys camau gweithredu manylach, atebolrwydd mwy penodol, a cherrig milltir ac amserlenni cyflawni cliriach. Mae'r cynllun wedi cael ei ad-drefnu i leihau gorgyffwrdd a dyblygu yn y camau gweithredu sydd ar ôl, ac mae camau gweithredu ar gyfer gwella gwasanaethau newyddenedigol wedi cael eu hymgorffori yn y cynllun hefyd. Mae trosolwg lefel uchel o'r Cynllun Gwella Mamolaeth diwygiedig wedi'i atodi yn *Atodiad C*.

3.6 ASESAD O'R SEFYLLFA BRESENNOL A'R CAMAU NESAF

Mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud yn erbyn y Cynllun Gwella Mamolaeth yn ystod y chwe mis diwethaf ac, er bod y Bwrdd Iechyd yn gallu bod yn dawel fodlon â'r hyn mae wedi'i gyflawni o ran y Cynllun Gwella Mamolaeth hyn yn hyn, does dim lle i laesu dwylo.

Yn ystod y cyfnod adrodd nesaf, bydd y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar wneud cynnydd yn erbyn yr 20 cam gweithredu sy'n weddill. Mae'r rhain wedi'u crynhoi yn y tabl isod:-

Ffigur 1: Camau gweithredu'r Cynllun Gwella Mamolaeth sydd heb eu cyflawni ar 01.09.2020⁴

Gofal Diogel ac Effeithiol	Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth	Ansawdd Profiadau Menywod a Theuluoedd
7.1 Sicrhau ansawdd data 7.7 Preifatrwydd ac urddas 7.19 Adolygiad o ddigwyddiadau difrifol 7.20 Mynd i'r afael â'r 'diwylliant gweld bai' 7.31 Cynlluniau geni tymor hir 7.51 Cwynion a phryderon 7.63 Sicrwydd y Bwrdd	7.8 Hwyluso arbenigwyr allanol 7.17 Hyfforddiant ar gyfer staff SAS 7.35 Dadansoddi anghenion hyfforddi 7.39 Cyflenwi swyddi meddygon ymgynghorol (gynaecoleg) 7.42 Gwerthoedd ac ymddygiadau 7.44 Hyfforddiant arwain clinigol 7.45 Mentora clinigol 7.56 Hyfforddiant cyfathrebu 7.69 Rheoli talent	7.53 Strategaeth gyfathrebu 7.54 Cyd-gynhyrchu 7.67 Datblygu gweledigaeth strategol 7.70 Newid gwasanaeth

⁴ Mae rhestr lawn o'r 70 argymhelliad i'w gweld yn adroddiad y Colegau Brenhinol, sydd ar gael [yma](#).

Mae'r holl gamau gweithredu nad ydynt wedi'u cyflawni yn y broses o gael eu cyflawni ar hyn o bryd, ac mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud yng nghyswllt nifer ohonynt. Fodd bynnag, mae'n amlwg o'r rhestr bod llawer iawn o waith i'w wneud o hyd er mwyn cyflawni'r cynllun cyfan, ac yn enwedig i fynd i'r afael â'r 70 argymhelliad yn adroddiad y Colegau Brenhinol. Gwelir hefyd bod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu sydd ar ôl yn ymwneud â materion cymhleth, tymor hwy (gan gynnwys diwylliant y sefydliad, capasiti arwain, cynlluniau a strategaethau tymor hwy) a fydd yn cymryd amser i'w datrys i raddau lle gellir ystyried eu bod wedi'u cyflawni'n llawn.

Yn ystod y chwe mis diwethaf, mae'r Cynllun Gwella Mamolaeth wedi trawsnewid o fod yn gynllun statig a oedd yn seiliedig ar gyflawni rhestr o argymhellion, i fod yn un mwy deinamig a yrrir gan broses gwelliant parhaus tymor hwy sydd wedi'i sefydlu yng ngweithrediadau o ddydd i ddydd y gwasanaeth. Er y bydd argymhellion y Colegau Brenhinol yn dal yn weledol ac yn rhan ganolog o'r broses, bydd y Cynllun Gwella Mamolaeth yn esblygu'n gyson dros amser wrth i gamau gweithredu newydd a chyfleoedd i wella ddod i'r amlwg.

O ystyried y datblygiadau hyn, byddai'n amserol i'r Panel a'r Bwrdd lechyd adolygu'r trefniadau monitro perfformiad presennol ar y cyd er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r addasiadau sydd wedi'u gwneud i'r Cynllun Gwella Mamolaeth.

Y CAMAU NESAF - Cam 3: O ystyried y datblygiadau diweddar yn y Cynllun Gwella Mamolaeth, dylai'r Bwrdd lechyd a'r Panel fynd ati ar y cyd i adolygu'r trefniadau monitro, gwerthuso ac adrodd ar gynnydd.

4 ASESIAD O'R CYNNYDD CYFFREDINOL YN ERBYN YR IPAAF

Mae'r Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd (IPAAF) wedi cael ei ddatblygu ar y cyd gan y Bwrdd Iechyd a'r Panel er mwyn galluogi gwelliannau mewn gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol i gael eu monitro, eu hasesu a'u gwerthuso mewn ffordd hawdd ei deall nad yw'n cynnwys gormod o ystadegau a jargon technegol.

Mae esboniad manylach o fethodoleg yr IPAAF a'r broses o'i datblygu yn adroddiadau blaenorol y Panel. Mae crynodeb byr i'w weld yn adroddiad Ebrill 2020, y mae modd ei weld [yma](#).

4.1 IPAAF – DISGRIFIAD BYR

Mae'r IPAAF yn triongli gwybodaeth o amryw o ffynonellau i roi asesiad cynhwysfawr o sut mae'r gwasanaeth yn perfformio ar draws nifer o wahanol barthau. Mae'n defnyddio cyfuniad o wybodaeth feintiol ac ansoddol (gan gynnwys tystiolaeth o gyflawniad yn erbyn camau gweithredu'r Cynllun Gwella Mamolaeth, ystod o fetrigau perfformiad, ac adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth) i greu darlun cyfoethog o berfformiad y gwasanaeth.

Er bod methodoleg yr IPAAF yn gymhleth, mae set o fatricsau aeddfedrwydd wedi cael eu datblygu i roi ffordd syml i ddefnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill ddeall i ba raddau yr ystyrir bod y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol y Bwrdd Iechyd yn bodloni'r canlynol:-

- diogel ac effeithiol;
- cael ei arwain a'i reoli'n dda;
- canolbwyntio ar ansawdd profiadau menywod a theuluoedd.

Mae'r matricsau aeddfedrwydd hefyd wedi'u dylunio i roi dealltwriaeth o sut mae'r asesiadau hyn wedi newid dros amser ac, ar sail hynny, i ba raddau mae gwasanaethau'n aeddfedu – neu beidio. Mae'r matricsau aeddfedrwydd yn disgrifio pum lefel o gynnydd gan ddefnyddio cyfres o ddisgrifyddion naratif, fel hyn:-

Ffigur 2: Lefelau Cynnydd y Matrics Aeddfedrwydd

Maen Prawf	Diffiniad
1 Lefel Sylfaenol Wedi derbyn yr egwyddor ac ymrwmo i weithredu	Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r gofyniad ond nid yw'n gallu dangos ei fod yn ei fodloni a/neu nid yw'n gallu dangos tystiolaeth o gynlluniau neu ddulliau clir i fodloni'r maen prawf hwn.
2 Cynnydd Cynnar Cynnydd cynnar o ran datblygiad	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod beth mae angen ei wneud ar gyfer y maen prawf hwn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gallu dangos tystiolaeth ei fod yn gallu bodloni <i>rhai</i> meini prawf ond nid yw'n gallu dangos ei fod yn bodloni'r holl agweddau yn llawn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu bodloni'r holl feini prawf yn llawn.
3 Canlyniadau Wedi dechrau cyflawni	Mae'r Bwrdd Iechyd yn bodloni rhywfaint o'r meini prawf yn unol â'r cerrig milltir y cytunodd arnynt, ac mae ganddo gynllun clir a chredadwy i wella darpariaeth y gwasanaeth yn barhaus ac yn gynaliadwy.
4 Aeddfedrwydd Cyflawni canlyniadau'n gyson	Mae'r Bwrdd Iechyd yn bodloni'r holl feini prawf i safon uchel ac yn gallu dangos tystiolaeth o nifer o enghreifftiau o ymarfer da yn erbyn y meini prawf sy'n cael eu rhannu a'u mabwysiadu gan eraill fel mater o drefn.
5 Rhagorol Mae eraill yn dysgu o'n cyflawniadau cyson	Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagori ym mhob maen prawf, mewn darpariaeth gwasanaeth ac mae profiadau cleifion yn rhagorol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn arwain yr agenda strategol drwy roi arferion arloesol ar waith, sy'n cael eu rhannu â Byrddau Iechyd eraill a thu hwnt i'r sefydliad, gan gyflawni cynaliadwyedd tymor hir.

Mae disgrifyddion ar wahân wedi cael eu datblygu ar gyfer tri maes perfformiad yr IPAAF (h.y. Gofal Diogel ac Effeithiol, Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth, ac Ansawdd Profiad Menywod a Theuluoedd).

Pan gyflwynodd y Panel ei adroddiad diwethaf ym mis Ebrill 2020, daeth i'r casgliad, er y byddai'r IPAAF yn elwa o gael ei fireinio ymhellach, ei fod yn sylfaen cadarn ar gyfer adrodd ar gynnydd y Bwrdd lechyd yn ei daith tuag at wella mamolaeth. O ganlyniad i hyn, aeth y Bwrdd lechyd ati i gynnal asesiad cychwynnol yn erbyn y matricesau aeddfedrwydd er mwyn llunio sylfaen y gellid meincnodi gwelliant pellach yn ei herbyn.

Ar yr adeg honno, daeth y Bwrdd lechyd i'r casgliad ei fod yn gwneud '**Cynnydd Cynnar**' yn y tri pharth perfformiad ac roedd y Panel yn cytuno â'r asesiad hwnnw.

4.2 DATBLYGIADAU YN YR IPAAF YN YSTOD Y CYFNOD ADRODD PRESENNOL

Yn ystod y chwe mis diwethaf, mae'r Bwrdd lechyd wedi gwneud cyfres o welliannau cynyddrannol i fethodoleg yr IPAAF. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft:-

- cryfhau rhywfaint ar y fframwaith asesu er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â'r broses sy'n cael ei datblygu ar lefel gorfforaethol i gefnogi'r broses ehangach ar gyfer ymyrraeth wedi'i thargedu;
- dull manylach o asesu effaith camau gwella unigol ar y canlyniad asesu cyffredinol;
- offeryn hunanasesu sy'n nodi'r dystiolaeth sydd ar gael o amryw o ffynonellau yn erbyn pob un o ddisgrifyddion a lefelau cynnydd y matrices aeddfedrwydd;
- gwelliannau i'r broses o ddadansoddi data meintiol er mwyn adnabod tueddiadau dros amser a'r rhesymau a allai fod y tu ôl i'r tueddiadau hynny.

Ym marn y panel, mae'r gwelliannau hyn wedi gwneud y fframwaith asesu'n fwy cadarn a chryfhau'r canlyniadau.

4.3 ASESU PRESENNOL YN ERBYN MATRICES AEDDFEDRWYDD IPAAF



Yn ystod mis Awst 2020, fe wnaeth y Bwrdd lechyd gynnal eu hail hunanasesiad yn erbyn matricesau aeddfedrwydd IPAAF. Cyflwynwyd yr hunanasesiad i'r Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth i gael ei gymeradwyo ar 18 Awst, ac i Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd lechyd i gael ei gadarnhau ar 03 Medi 2020.

Ar sail yr hunanasesiad, mae'r Bwrdd lechyd wedi dod i'r casgliad bod y lefel aeddfedrwydd bresennol yn unol â'r tri pharth fel a ganlyn:-

- Mae **Gofal Diogel ac Effeithiol** yn gadarn yn y cam '**Canlyniadau**' erbyn hyn, gydag agweddau ar y gwasanaeth yn dynesu at 'Aeddfedrwydd';
- Mae **Ansawdd Profiadau Menywod** hefyd yn y cam '**Canlyniadau**', er bod rhai agweddau ar y gwasanaeth yn dal yn y cam 'Cynnydd Cynnar';
- Mae **Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth** hefyd yn y cam '**Canlyniadau**' ar y cyfan, er bod rhai agweddau ar y gwasanaeth yn dal yn y cam 'Cynnydd Cynnar'.

Mae'r asesiadau hyn i'w gweld yn y ffigur isod. Mae'r saeth yn dangos cynnydd ers cynnal yr asesiad diwethaf ym mis Ebrill 2020.

Ffigur 3: Asesiad Aeddfedrwydd - 28 Awst 2020

	LEFEL AEDDFEDRWYDD				
	Elfennol	Cynnydd Cynnar	Canlyniadau	Aeddfedrwydd	Rhagorol
Gofal Diogel ac Effeithiol					
Ansawdd Profiadau Menywod					
Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth					

Mae'r Panel wedi adolygu rhesymeg y Bwrdd lechyd ar gyfer yr asesiadau hyn, ac er efallai ei fod wedi dod i farn wahanol am raddio nifer bach o elfennau unigol yn y fframwaith, mae'n cytuno â'r casgliadau cyffredinol.

Mae'n bwysig pwysleisio nad yw '**Canlyniadau**' yn golygu bod yr holl waith angenrheidiol wedi cael ei gwblhau na bod y gwasanaeth yn cyflawni'n llwyr yn unol â'r disgwyliadau. Yr hyn mae'n ei olygu yw bod y Bwrdd lechyd yn gwneud cynnydd cyson ar draws y tri pharth perfformiad ac, er bod llawer o waith i'w wneud o hyd i gyrraedd y safonau mae'n anelu atynt, mae cynlluniau credadwy ar waith ac mae ar y trywydd iawn i'w cyflawni.

4.4 DATBLYGU'R IPAAF – Y CAMAU NESAF

Mae'r IPAAF wedi datblygu'n sylweddol dros y deuddeg mis diwethaf i gyrraedd pwynt lle mae'n darparu mecanwaith effeithiol ar gyfer monitro, asesu ac adrodd ar gynnydd. Fodd bynnag, roedd bob amser yn fwriad y byddai'r fframwaith yn esblygu dros amser ac, mewn trafodaeth â'r Bwrdd lechyd, nodwyd nifer o feysydd lle gellid cryfhau'r fframwaith ymhellach. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, cysoni'r fframwaith yn agosach â fframwaith perfformiad corfforaethol y Bwrdd lechyd, gan ddarparu rhagor o ddisgrifyddion pendant ar gyfer y camau aeddfedrwydd a rhagorol, gan wneud gwell defnydd o ddata meintiol i roi sail i'r broses asesu, a myfyrio ar drawsnewid y Cynllun Gwella Mamolaeth i fod yn broses gwelliant parhaus. O ystyried bod y fframwaith wedi cwblhau dau gylch, mae'n ymddangos y byddai'n gwneud synnwyr edrych ar y sefyllfa a nodi sut gellid cryfhau'r fframwaith yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

Y CAMAU NESAF - Cam 4: Mae'r Panel o'r farn y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Bwrdd lechyd yn trefnu gweithdy amlddisgyblaethol arall yn ystod y cyfnod adrodd nesaf, er mwyn adolygu'r IPAAF presennol a chytuno ar gam nesaf ei ddatblygiad.

5 INTEGRIDDIO GWELLIANAU I'R GWASANAETH NEWYDDENEDIGOL

Mae'r Bwrdd Iechyd a'r Panel wedi cytuno bod integreiddio darpariaeth mamolaeth a newyddenedigol yn hanfodol bwysig i sicrhau gwasanaeth diogel ac effeithiol o'r dechrau i'r diwedd, sy'n canolbwyntio ar anghenion menywod a'u babanod. Pan gyflwynodd y Panel ei adroddiad ym mis Ebrill 2020, nododd bod angen gwneud mwy i sicrhau'r integreiddio hwnnw, a nododd bod angen canolbwyntio mwy ar faterion newyddenedigol wrth symud ymlaen.

5.1 INTEGRIDDIO GWASANAETHAU NEWYDDENEDIGOL

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau pwrpasol i adlewyrchu'r gwelliannau i'r gwasanaeth newyddenedigol yn y Rhaglen Gwella Mamolaeth yn gyffredinol, gan gynnwys:-

- cynyddu goruchwyliaeth materion newyddenedigol drwy'r Bwrdd Gwella Mamolaeth;
- rôl arwain drosfwaol ar gyfer y Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth;
- cynnwys nyrs newyddenedigol arbenigol yn y Tîm Gwella Mamolaeth;
- cynnwys yr uwch dîm arwain newyddenedigol yng nghyfarfodydd y Panel yn rheolaidd;
- y Cyfarwyddwr Meddygol yn chwarae rôl gydlynw i raddau cynyddol;
- gweithredu'n gynnar i gysoni prosesau fel archwilio clinigol a llywodraethu clinigol.

O ran rheoli rhaglenni, er bydd yr elfen newyddenedigol yn aros yn weledol iawn ac yn hawdd ei hadnabod, mae camau gweithredu i wella gwasanaethau newyddenedigol wedi cael eu hintegreiddio yn y Cynllun Gwella Mamolaeth a'u hadlewyrchu mewn matricesau aeddfedrwydd sy'n rhan o'r IPAAF.

Er y gellid cyflawni llawer drwy ddull mwy integredig o wella gwasanaethau, mae wedi dod yn glir i'r Panel a'r Bwrdd Iechyd y gallai rhyw fath o newid strwythurol fod yn ateb tymor hwy. Mae gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol mewn gwahanol rannau o'r strwythur sefydliadol ar hyn o bryd ac mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n ystyried sut byddai modd mynd i'r afael â hyn drwy'r fframwaith gweithredu diwygiedig sy'n cael ei gyflwyno ledled y sefydliad ar hyn o bryd.

Mae hwn yn fater cymhleth sy'n gysylltiedig â Rhaglen De Cymru a materion ehangach sy'n ymwneud ag argaeledd meddygon ymgynghorol a darpariaeth gwasanaethau pediatriig yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Fodd bynnag, mae angen rhywfaint o eglurder nawr, a byddai'r Panel yn annog y Bwrdd Iechyd i nodi ffordd ymlaen cyn gynted â phosibl.

Y CAMAU NESAF– Cam 5: Dylai'r Bwrdd Iechyd nodi ateb strwythurol tymor hwy a fyddai'n golygu integreiddio gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol.

5.2 GWELLA GWASANAETHAU NEWYDDENEDIGOL – Y SEFYLLFA BRESENNOL

O ganlyniad i'r mesurau sydd wedi cael eu rhoi ar waith, mae gan y Panel a'r Bwrdd lechyd drosolwg llawer gwell o faterion newyddenedigol. Yn benodol, mae sylfaen wedi cael ei sefydlu i nodi, yn gyntaf, beth sydd wedi cael ei gyflawni hyd yn hyn yn unol ag argymhellion y Colegau Brenhinol ac, yn ail, beth mae angen ei wneud wrth symud ymlaen.

Fe wnaeth adolygiad, a gynhaliwyd ar y cyd rhwng y Panel a'r Bwrdd lechyd, nodi bod angen cymryd rhyw fath o gamau gweithredu o safbwynt newyddenedigol mewn perthynas â 30 o'r 70 argymhelliad yn adroddiad y Colegau Brenhinol. O'r rheini, roedd 7 yn ymwneud yn benodol â'r gwasanaeth newyddenedigol ac roedd 23 yn gamau gweithredu mwy cyffredinol a oedd yn ymwneud â gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn gyfartal. Mewn ymateb i hyn, mae ymarfer hunanasesu wedi cael ei gynnal gan yr uwch dîm rheoli newyddenedigol i nodi'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud ers mis Ebrill 2019 tuag at gyflawni'r 30 argymhelliad. Defnyddiwyd canfyddiadau'r adolygiad cymheiriaid a gynhaliwyd gan y Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol ym mis Medi 2019 fel sail i'r asesiad.

O blith y 30 argymhelliad, daeth yr hunanasesiad i'r casgliad bod 9 ohonynt wedi cael eu cyflawni'n llawn, bod 2 heb eu cyflawni ac yn flaenoriaeth frys, a bod 17 ar y gweill. Roedd y ddau argymhelliad sy'n weddill yn ymwneud ag aildrefnu'r gwasanaeth ym mis Mawrth 2019 ac felly nid oeddent yn berthnasol mwyach. O edrych ar y sylfaen hon mae'n glir, er bod rhywfaint o gynnydd cynnar wedi cael ei wneud, bod llawer o waith i'w wneud o hyd i fynd i'r afael â holl argymhellion y Colegau Brenhinol sy'n ymwneud â'r gwasanaeth newyddenedigol.

5.3 TROSOLWG O WELLIAN NEWYDDENEDIGOL – DULL A RENNIR

Mewn ymgynghoriad â'r Bwrdd lechyd, mae'r Panel wedi cytuno bod 16 o'r 30 argymhelliad newyddenedigol yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaeth di-dor o'r dechrau i'r diwedd. Mae hyn yn cynnwys argymhellion sy'n ymwneud â materion allweddol fel archwilio clinigol, canllawiau a phrotocolau, sefydlu staff meddygol, dysgu o ddigwyddiadau difrifol, canllawiau ar ymgysylltu â menywod a theuluoedd, a gwasanaethau profedigaeth. Bydd yr argymhellion hyn yn amodol ar oruchwyliaeth uniongyrchol gan y panel fel rhan hanfodol o'r Rhaglen Gwella Mamolaeth.

Bydd gweddill yr argymhellion, sy'n ymwneud â materion mwy cyffredinol, yn cael eu monitro a'u hasesu gan y Bwrdd lechyd drwy'r Bwrdd Gwella Mamolaeth. Bydd yr argymhellion hyn yn dal yn weledol ac yn hygyrch ym mhroses y Bwrdd Gwella Mamolaeth a bydd y Panel yn cael sicrhwydd o'r dull systematig a roddwyd ar waith gan y Bwrdd lechyd, yn hytrach na drwy asesu'r dystiolaeth ar gyfer yr argymhellion penodol ei hun.

Bydd dull hyblyg yn cael ei ddefnyddio a gall y Panel ailgydio yn y ddyletswydd o oruchwyllo argymhellion penodol yn uniongyrchol os bernir bod hynny'n angenrheidiol. Bydd yr hyblygrwydd hwn yn bwysig, yn enwedig wrth i ganfyddiadau'r Rhaglen Adolygiadau Clinigol annibynnol ddod i'r amlwg, er mwyn

sicrhau bod y broses oruchwyllo allanol yn mynd i'r afael â'r holl faterion sy'n hanfodol er mwyn darparu gwasanaeth i fenywod a'u babanod sy'n ddiogel, o ansawdd uchel ac yn canolbwyntio ar y person.

Mae'r penderfyniad i rannu'r gwaith o oruchwyllo'r gwelliannau newyddenedigol fel hyn yn cydnabod bod prosesau llywodraethu a sicrwydd mewnol y Bwrdd lechyd wedi datblygu'n sylweddol ers dechrau'r broses oruchwyllo. Mae hyder cynyddol yng ngallu'r Bwrdd lechyd i oruchwyllo cyflawniad ei gynlluniau gwella'n effeithiol a/neu uwchgyfeirio lle bo hynny'n briodol. Wedi dweud hynny, mae'r Panel yn cadw'r hawl i gyflwyno her adeiladol neu ddwyn argymhellion penodol yn ôl i'r broses oruchwyllo allanol os bernir bod hynny'n angenrheidiol.

6 YMGYSYLLTU Â MENYWOD A THEULUEDD

Pan gyflwynodd y Panel ei adroddiad ym mis Ebrill 2020, daeth i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd yn adeiladu'n raddol ar y cynnydd cynnar a wnaeth o ran ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r menywod a'r teuluoedd sy'n defnyddio ei wasanaethau, yn ogystal â'i gymunedau ehangach.

Mae'r Panel wedi adrodd yn helaeth ar y datblygiadau cynnar hynny yn ei adroddiadau blaenorol ac nid yw hyn cael ei ailadrodd yma, oni bai am sylw byr i ddweud ei bod yn galonogol gweld y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad a ddatblygwyd dros y deunaw mis diwethaf yn cael eu hadlewyrchu yn Strategaeth Ymgysylltu 2020/23, sydd wedi cael ei chymeradwyo gan y Bwrdd Gwella Mamolaeth yn ddiweddar. Mae hefyd yn galonogol gweld bod y dulliau a ddefnyddir mewn gwasanaethau mamolaeth yn dylanwadu'n fwyfwy ar ddull cyfathrebu ac ymgysylltu ehangach y Bwrdd Iechyd.

6.1 DATBLYGIADAU DIWEDDAR

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i adeiladu ar ei lwyddiant cynnar yn ystod y cyfnod adrodd presennol, er gwaethaf y cyfyngiadau a roddwyd ar waith yn sgil COVID-19. Mae hefyd wedi dechrau gwneud cynnydd ar ran bwysicaf y broses ymgysylltu, gellid dadlau, sef defnyddio adborth defnyddwyr gwasanaeth a chymunedau i ddylanwadu ar newid y gwasanaeth a gwella ansawdd. Mae'n werth nodi'r datblygiadau canlynol:-

- **Ymgysylltiad Amser Real** - Cafodd trafodaethau 'amser real' rheolaidd y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS) gyda menywod a theuluoedd oedd yn defnyddio gwasanaethau mamolaeth eu hatal dros dro oherwydd COVID-19, ond maent nawr yn cael eu hadsefydlu a'u hystyngi i grwpiau cyn geni a'r gymuned. Yn absenoldeb adborth PALS, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ehangu ei ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol yn gyflym er mwyn ymgysylltu'n fwy helaeth gyda menywod mewn sgysiau ar-lein am eu profiad o famolaeth. Mae arweinydd ymgysylltu'r Panel yn monitro'r sianeli hyn yn gyson ac mae wedi cael ei galonogi gan yr adborth cadarnhaol rhyfeddol gan fenywod a'r ymateb cyflym i awgrymiadau ar gyfer gwelliant.
- **My Maternity My Way** - Mae'r fforwm My Maternity My Way (MMMWW) wedi parhau i esblygu. Mae'r Cadeirydd Lleyg wedi cyflwyno ysgogiad newydd ac mae'r Bydwagedd Ymgynghorol a Phrofiad Menywod sy'n cefnogi'r fforwm wedi rhoi llawer o egni i mewn i'w rhaglen waith. Mae menywod ac aelodau o'r teulu sy'n cyfrannu at gyfarfodydd MMMWW wedi cymryd rhan flaenllaw yn y gwaith o ddylunio'r poster a'r taflenni i hyrwyddo'r fforwm. Mae menywod sy'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd MMMWW yn rhannu eu straeon yn rheolaidd, ac felly'n amlygu elfennau o arferion gorau a phrofiadau lle byddai dulliau gwahanol a gwell cyfathrebu wedi gwneud gwahaniaeth. Mae'r profiadau hyn yn gyrru agenda'r fforwm MMMWW ac yn amlygu meysydd lle mae angen newid. Un peth pwysig yw bod straeon menywod nawr yn cael eu defnyddio fel adnodd

hyfforddiant, ac mae cynlluniau i greu cofnodion fideo ar y gweill. Mae gan gyfarfod MMMW eitem sefydlog ar yr agenda sy'n rhoi trosolwg o bryderon, cwynion a chanmoliaeth i aelodau. Mae hwn yn gam cadarnhaol ymlaen o ran triongli ymgysylltiad, adborth, dysgu a chamau gweithredu.

- **Rhaglen 15 Cam** - Mae'r Panel yn falch o weld bod y Rhaglen 15 Cam, sef amrywiad o'r dull arsylwi 'cwsmer cudd' a ddefnyddir i ddeall beth mae defnyddwyr gwasanaeth a gofalgwyr yn ei brofi pan fyddant yn cyrraedd lleoliad gofal iechyd, nawr yn rhan greiddiol o'r broses werthuso.
- **Ymgysylltu Rhithiol** - Mae pandemig COVID-19 wedi cyflymu arloesedd ac arwain at ddatblygu ffyrdd newydd o estyn allan i fenywod a theuluoedd ac i glywed am eu profiadau nhw o ddefnyddio gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol. Mae cyfarfodydd MMMW wedi cael eu cynnal yn amlach ac mae'r adborth yn awgrymu bod menywod a theuluoedd o'r farn bod y dull hwn yn fwy hygyrch.
- **Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol** - Roedd tudalen Facebook y Bwrdd Iechyd, 'Bump Talk', eisoes yn fforwm bywiog i fenywod sy'n defnyddio gwasanaethau mamolaeth. Mae'n gyfrwng hygyrch sydd ar gael yn eang i rannu cwestiynau, profiadau a safbwyntiau. O ganlyniad i'r cyfyngiadau ar gyswllt wyneb yn wyneb sydd wedi deillio o COVID-19, mae defnydd 'Bump Talk' wedi cynyddu. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymateb yn rhagweithiol drwy bostio fideos, posteri a gwybodaeth arall ar Bump Talk a sianeli cyfryngau cymdeithasol eraill i esbonio sut mae gwasanaethau wedi cael eu haddasu.
- **Teithiau Rhithiol** - Mewn ymateb i'r adborth gan fenywod nad ydynt yn gallu ymweld ag unedau mamolaeth oherwydd COVID-19, mae teithiau fideo rhithiol wedi cael eu creu.

Mae'r arloesiadau hyn, a ddatblygwyd mewn amgylchiadau dan bwysau yn syth ar ôl dechrau'r pandemig COVID-19, yn dangos pa mor bell mae'r Bwrdd Iechyd wedi dod o ran ymgysylltu ers cyhoeddi adroddiad y Colegau Brenhinol. Mae'r Panel wedi'i galonogi o weld bod arloesi yn cynyddu, ac mae'n hyderus y bydd ystod a chwmpas dull ymgysylltu'r Bwrdd Iechyd yn parhau i esblygu.

6.2 GWNEUD GWAHANIAETH – EFFAITH YMGYSYLLTU

Mae'r dadansoddiad thematig o'r adborth o ddigwyddiadau ymgysylltu cymunedol 2019/20 wedi cael ei gwblhau. Mae'r themâu sy'n dod i'r amlwg wedi cael eu triongli gyda gwybodaeth o ffynonellau eraill, gan gynnwys arolygon amser real PALS, adborth oddi ar y cyfryngau cymdeithasol a gasglwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a themâu a materion sy'n codi o gwynion a phryderon.

Mae'r themâu hyn bellach yn gyrru rhaglen waith 2020/23 o fewn y Cynllun Ymgysylltu – Mamolaeth newydd. Mae hwn yn canolbwyntio ar bedwar maes, sef:-

- bwydo babanod (gwybodaeth, dewisiadau a chymorth);
- darpariaeth a mynediad at wasanaethau iechyd meddwl amenedigol;

- galluogi menywod i ddeall y rhesymau dros eu gofal mamolaeth;
- hwyluso'r broses o gynnwys y partner yn y llwybr mamolaeth.

6.3 CYNWYS MENYWOD A THEULUEDD

Gyda chymorth eiriolwyr o'r Cyngor Iechyd Cymuned, mae'r Bwrdd Iechyd a'r Panel yn gweithio mewn cydweithrediad â rhai o'r menywod a'r teuluoedd mae'r materion a nodir yn adroddiad y Colegau Brenhinol wedi cael yr effaith fwyaf arnynt.

Yn benodol, mae grŵp bach o fenywod a theuluoedd wedi bod yn helpu i lywio'r broses adborth, sy'n rhan hollbwysig o Raglen Adolygiadau Clinigol y Panel.

Mae'r menywod a'r teuluoedd wedi rhoi dealltwriaeth werthfawr o sut hoffai pobl eraill mewn sefyllfaoedd tebyg gael gwybodaeth am eu hadolygiadau clinigol annibynnol, sut gymorth yr hoffent ei gael drwy'r broses, a sut hoffent fod yn rhan o'r broses adborth. Mae'r dealltwriaeth hon wedi dylanwadu ar y trefniadau mae'r Panel a'r Bwrdd Iechyd yn eu rhoi ar waith nawr.

6.4 Y CAMAU NESAF

Mae'r Panel yn credu bod dealltwriaeth ar gynnydd yn y Bwrdd Iechyd o'r angen am broses ymgysylltu systematig sydd wedi'i sefydlu'n gadarn yn y fframwaith llywodraethu clinigol. Yn y cyfnod adrodd nesaf, mae'r Panel yn gobeithio gweld cynnydd sylweddol yn y pedwar maes allweddol sy'n ganolog i'r dull hwn:-

- Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu map o broses y Cylch Ymgysylltu a fydd, ar y cyd â'r Fforwm Menywod a Theuluoedd a'r fforwm MMMW, yn rhan ganolog o'i brosesau monitro, adrodd, blaenoriaethu a gwneud penderfyniadau.

Y CAMAU NESAF - Cam 6: Mae'r Panel o'r farn bod y map o broses y Cylch Ymgysylltu yn ddatblygiad pwysig y dylid bwrw ymlaen ag ef cyn gynted â phosibl.

- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi penderfynu eisoes y bydd yn datblygu adnodd Mesurau Adrodd ar Brofiadau Cleifion (PREMS) penodol i famolaeth, a fydd yn sicrhau adborth rheolaidd gan fenywod a theuluoedd am y gofal a gawsant. Fodd bynnag, mae hyn wedi cael ei ohirio oherwydd yr ymateb i COVID-19.

Y CAMAU NESAF - Cam 7: Mae'r Panel o'r farn bod PREMS yn ddatblygiad pwysig y dylai'r Bwrdd Iechyd fwrw ymlaen ag ef cyn gynted â phosibl.

- Mae cynnydd yn dal i gael ei wneud o ran ymateb i gwynion a phryderon o fewn amserlenni mwy priodol, ac mae adnoddau ychwanegol wedi cael eu rhoi ar waith i gefnogi'r gwaith o ymchwilio a chynllunio camau gweithredu. Fodd bynnag, mae'r themâu sy'n dod i'r amlwg yn dal yn adlewyrchu materion a godwyd yn adolygiad y Colegau Brenhinol.

Y CAMAU NESAF– Cam 8: Bydd y panel yn parhau i fonitro sut mae'r Bwrdd Iechyd yn ymateb i themâu sy'n codi dro ar ôl tro mewn cwynion a phryderon.

- Mae'r Bwrdd lechyd wedi nodi'r angen i wella'r ffordd mae'n cyfleu'r gwelliannau sydd wedi cael eu gwneud mewn gwasanaethau mamolaeth ac mae wedi dyrannu adnoddau i ymgymryd â'r gwaith datblygu angenrheidiol.

Y CAMAU NESAF - Cam 9: Dylai'r Bwrdd lechyd ddatblygu proses ar gyfer cyfleu ei gynnydd o ran gwella gwasanaethau mamolaeth cyn gynted â phosibl.

7 Y RHAGLEN ADOLYGIADAU CLINIGOL ANNIBYNNOL

Pan gyflwynodd y Panel ei adroddiad diwethaf ym mis Ebrill 2020, roedd cam cyntaf y Rhaglen Adolygiadau Clinigol wedi hen ddechrau. Roedd y timau annibynnol a oedd yn cynnal yr adolygiadau clinigol wedi dechrau'r gwaith ac roedd Grŵp Prosiect wedi cael ei sefydlu i reoli'r rhaglen yn gyffredinol. Ers hynny, mae trefniadau rheoli cyffredinol y rhaglen wedi cael eu cryfhau ac mae'r Grŵp Prosiect gwreiddiol wedi cael ei ddisodli gan ddwy swyddogaeth:-

- Bwrdd Prosiect sy'n gyfrifol am oruchwylio'r rhaglen ac yn cynnwys Arweinwyr Obstetryddol, Bydwreigiaeth ac Ymgysylltu'r Panel, ynghyd â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru ac Uned Gyflawni GIG Cymru;
- Grŵp Gweithrediadau sy'n gyfrifol am sicrhau bod adolygiadau achos yn rhedeg yn ddidraffeth; mae'n cynnwys Arweinwyr Obstetryddol, Bydwreigiaeth ac Ymgysylltu'r Panel, yn ogystal â chynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd a'r Cyngor Iechyd Cymuned.

Mae COVID-19 wedi cyflwyno heriau newydd ac roedd yn rhaid addasu'r prosesau adolygu clinigol i optimeiddio'r defnydd o dechnoleg o bell. Mae'r timau wedi addasu'n dda i weithio mewn amgylchedd rhithiol, ac mae cynnydd da wedi cael ei wneud gyda chefnogaeth barhaus y Bwrdd Iechyd. Mae hyn wedi'i grynhofio isod.

7.1 Y RHAGLEN ADOLYGIADAU CLINIGOL – STATWS PRESENNOL

Mae esboniad manwl o'r rhaglen adolygiadau clinigol wedi'i nodi yn Strategaeth Adolygu Clinigol y Panel, sydd ar gael [yma](#).

Mae gwaith adolygu clinigol y Panel yn canolbwyntio ar oddeutu 160⁵ o benodau gofal⁶ a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd rhwng mis Ionawr 2016 a mis Medi 2018⁷. Mae hyn yn cynnwys y 43 digwyddiad a nodwyd yn wreiddiol yn adroddiad y Colegau Brenhinol. Mae'r penodau gofal wedi cael eu rhannu i dri chategori sydd wedi'u nodi yn y tabl isod, yn y drefn y cynhelir yr adolygiadau.

CATEGORI	DISGRIFIAD
1. Morbidrwydd a marwolaethau ymysg mamau	Y gofal a roddwyd i famau, gan gynnwys y rheini yr oedd angen eu hanfon i'r uned gofal dwys (ICU) o bosibl
2. Marw-enedigaethau	Babanod a oedd wedi marw cyn cael eu geni yn anffodus
3. Morbidrwydd a marwolaethau ymysg babanod newydd-anedig	Babanod a fu farw yn dilyn yr enedigaeth yn anffodus, neu a oedd angen gofal arbenigol

⁵ Roedd adroddiad blaenorol y Panel yn nodi mai tua 150 o benodau gofal oedd yn cael eu hadolygu, er y pwysleisiwyd bod y nifer yn debygol o newid pan fyddai gwybodaeth newydd yn dod i law.


⁶ Mae'r amcan uwch o oddeutu 160 yn adlewyrchu nifer o hunanatgyfeiriadau a oedd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer adolygiad clinigol, a phenderfyniad i gynnwys mwy nag un beichiogrwydd ar gyfer rhai menywod.

⁷ Mae nifer bach o'r hunanatgyfeiriadau sydd wedi cael eu cynnwys wedi'u dyddio cyn mis Ionawr 2016.

Cysylltwyd â'r holl fenywod y mae eu gofal yn cael ei adolygu i roi gwybod iddynt fod eu hadolygiad wedi dechrau neu ar fin dechrau.

Mae llwybr wedi cael ei ddatblygu i esbonio sut bydd y broses adolygu clinigol yn gweithio. Dangosir hyn yn Ffigur 4 isod, ac mae fersiwn mwy wedi'i atodi yn *Atodiad D*.

Ffigur 4: Llwybr ar gyfer Adolygiadau Clinigol



7.2 SICRHAU ANSAWDD

Mae'r broses sicrhau ansawdd (Cam 7 ar y llwybr) wedi cael ei rhoi ar waith i sicrhau cysondeb ar draws yr adolygiadau. Mae'r Panel Sicrhau Ansawdd yn cwrdd yn rheolaidd i asesu achosion sydd wedi cael eu cwblhau gan y timau adolygu clinigol. Mae hyn yn golygu bod modd adnabod cyfleoedd i ddysgu ac adrodd yn ôl i'r Bwrdd Iechyd am hyn, er mwyn gallu asesu a oes angen cymryd camau i wella ac ateb unrhyw gwestiynau a godwyd yn y straeon gan gleifion a ddarparwyd i'r Panel. Mae'r broses sicrhau ansawdd yn fanwl ac yn drylwyr, ac mae'n gam hollbwysig er mwyn sicrhau bod y llythyrau a fydd yn cael eu hanfon at fenywod a theuluoedd yn nodi canlyniadau eu hadolygiad yn gywir ac yn gyflawn. Mae'r rhan hon o'r broses yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl, ond mae'n dal yn bwysig bod popeth yn gwbl gywir cyn i unrhyw lythyrau adborth gael eu hanfon at fenywod a theuluoedd.

7.3 AMSERLENNI AR GYFER CYFLAWNI

O ystyried cymhlethdod y broses, does dim modd rhagfynegi'n fanwl gywir beth fydd yr amserlen ar gyfer cwblhau'r Rhaglen Adolygiadau Clinigol yn llawn ar hyn o bryd, na dweud pryd yn union y bydd menywod a theuluoedd yn cael gwybod am ganfyddiadau eu hadolygiad clinigol unigol. Fodd bynnag, i roi syniad bras o gynnydd, mae'r tabl canlynol yn nodi'r cam presennol o ran y llwybr adolygu clinigol ar gyfer y tri chategori.

CATEGORI	STATWS PRESENNOL
1. Morbidrwydd a marwolaethau ymysg mamau	Cam 7
2. Marw-enedigaethau	Camau 5/6
3. Morbidrwydd a marwolaethau ymysg babanod newydd-anedig	Camau 3/4/5

Ar y sail hon, rhagwelir y bydd y Panel yn dechrau ysgrifennu at y menywod a'r teuluoedd sy'n rhan o'r categori marwolaeth a morbidrwydd ymysg mamau ddiwedd yr hydref i roi gwybod iddynt am eu canfyddiadau. Rhagwelir hefyd y bydd y panel yn cynhyrchu ei adroddiad 'diwedd cam' cyntaf tua diwedd 2020, a fydd yn crynhoi'r prif themâu sydd wedi codi o'r categori marwolaeth a morbidrwydd ymysg mamau.

7.4 HUNANATGYFEIRIADAU

Mae'r Rhaglen Adolygiadau Clinigol Annibynnol yn cynnwys proses ar gyfer adolygu hunanatgyfeiriadau gan fenywod a'u teuluoedd. Cafodd y broses ei hesbonio'n fanwl yn adroddiad blaenorol y Panel. Mae llwybr wedi cael ei baratoi i esbonio'r broses hunanatgyfeirio i fenywod a theuluoedd, ac mae wedi'i atodi yn *Atodiad E*.

Yn unol â'r broses honno, mae'r elfen triongli wedi cael ei chwblhau erbyn hyn ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi cysylltu â'r holl deuluoedd sydd wedi hunanatgyfeirio er mwyn eu cynnwys yn y broses o bennu datrysiad priodol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu amserlenni manwl ar gyfer pob un o'r hunanatgyfeiriadau ar hyn o bryd, er mwyn i'r Panel eu hadolygu. Mae 39 o hunanatgyfeiriadau yn cael eu hasesu ar hyn o bryd.

Rhagfynegwyd y byddai'r amserlenni ar gyfer pob un o'r hunanatgyfeiriadau yn cael eu cyflwyno i'r Panel erbyn diwedd mis Gorffennaf 2020. Fodd bynnag, mae lefel y manylder sydd ei angen wedi bod yn uwch na'r disgwyl ac mae amcan diweddaraf y Bwrdd Iechyd yn awgrymu y bydd y gwaith wedi cael ei gwblhau a'i gyflwyno i'r Panel yn ystod wythnos gyntaf mis Hydref. Ar yr adeg honno, bydd llythyrau'n cael eu hanfon at fenywod a theuluoedd i roi gwybod iddynt am ganlyniad yr adolygiad o'u hunanatgyfeiriad ac i roi cyfle iddynt gwrdd â'r Bwrdd Iechyd os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

7.5 DIGWYDDIADAU DIFRIFOL AR ÔL HYDREF 2018

Fel rhan o'r Rhaglen Adolygiadau Clinigol, mae'r Panel yn hap-samplu adolygiadau o ansawdd digwyddiadau difrifol a gynhaliwyd gan y Bwrdd Iechyd ers mis Hydref 2018. Mae proses sicrhau ansawdd strwythuredig wedi cael ei datblygu ac fe amlinellwyd hyn yn adroddiad blaenorol y Panel.

Mae proses sicrhau ansawdd wedi cael ei chynnal ar gyfer naw adolygiad o ddigwyddiadau difrifol hyd yma, ond daeth y Panel i'r casgliad mai dim ond dwy oedd wedi cael eu cwblhau i safon dderbyniol. Ym mis Mai 2020, fe wnaeth y Panel gwrdd â'r Bwrdd Iechyd ac argymhell bod adolygiad yn cael ei gynnal o'r broses sydd ar waith ar hyn o bryd i sicrhau bod ymchwiliadau i ddigwyddiadau difrifol yn cael eu cwblhau i safon resymol, a bod menywod a theuluoedd yn cael eu cynnwys. O ganlyniad i hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal darn o waith sylweddol i adolygu ei brosesau ac ôl-groniad o ddigwyddiadau difrifol.

Mae'r Panel wedi cytuno i barhau â'i rôl sicrhau ansawdd pan fydd yn cael sicrwydd gan y Bwrdd Iechyd bod ei brosesau'n addas i'r diben a bod safonau cyson ar gyfer ymchwilio i ddigwyddiadau difrifol yn cael eu bodloni'n rheolaidd.

Y CAMAU NESAF - Cam 10: Dylai'r Bwrdd Iechyd fynd ati cyn gynted â phosibl i gwblhau ei adolygiad o'r systemau a'r broses sydd eisoes ar waith ar gyfer sicrhau ansawdd a chysondeb adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol, er mwyn i'r Panel allu parhau â'i waith sicrhau ansawdd ar ôl Hydref 2018.

8 YMATEB Y BWRDD IECHYD

Cafodd ymateb y Bwrdd Iechyd i adolygiad y Colegau Brenhinol ei archwilio'n fanwl yn adroddiad blaenorol y Panel, ac nid yw hynny'n cael ei ailadrodd yma.

Fodd bynnag, efallai ei bod yn bwysig pwysleisio, ddeunaw mis yn ddiweddarach, bod y fframwaith gwella a sefydlwyd drwy'r Bwrdd Gwella Mamolaeth (MIB), y Tîm Gwella Mamolaeth (MIT) a'r tri Bwrdd Prosiect wedi esblygu'n gynyddrannol ac yn parhau i weithio'n dda.

Dros y chwe mis diwethaf, gyda phandemig COVID-19 yn digwydd yn y cefndir, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydweithio â'r Panel i barhau i yrru'r Rhaglen Gwella Mamolaeth yn ei blaen. Er gwaethaf yr holl heriau a'r problemau eraill mae'r sefydliad wedi'u hwynebu yn ystod y cyfnod anodd hwn, mae'r synnwyr gwirioneddol o berchnogaeth ac ymroddiad ar lefel y Cadeirydd, y Prif Swyddog Gweithredol a'r Bwrdd wedi aros yn gadarn, ac mae'r Uwch Swyddog Cyfrifol a'r Pennaeth Bydwreigiaeth yn enwedig wedi parhau i weithio gyda'r panel mewn awyrgylch cefnogol a heriol er budd y naill a'r llall.

Ar yr un pryd, mae'r trefniadau mewnol ar gyfer rheoli'r rhaglen wedi cael eu cynnal yn llawn, heb leihau adnoddau na chapasiti fel arall. Mae'r gefnogaeth i'r Rhaglen Adolygiadau Clinigol wedi cael ei chynnal ar yr un lefelau ag yr oedd cyn COVID, ac mae staff ychwanegol (gan gynnwys rhai nad oeddent yn gallu gweithio ar y rheng flaen am resymau iechyd a diogelwch) wedi dod i mewn ar sail ad hoc er mwyn cyflymu'r cynnydd.

Mae hyn oll wedi golygu na chollwyd ffocws na momentwm yn y broses oruchwylio na'r Rhaglen Gwella Mamolaeth ac, o ganlyniad i hynny, mae cynnydd pellach wedi cael ei wneud yn erbyn y Cynllun Gwella Mamolaeth.

8.1 DATBLYGIADAU YN YSTOD Y CYFNOD PRESENNOL

Y datblygiad mwyaf arwyddocaol sydd wedi digwydd yn ystod y cyfnod adrodd presennol yw trawsnewid y Tîm Gwella Mamolaeth o fod yn swyddogaeth rheoli'r rhaglen yn erbyn y rhaglen i fod yn swyddogaeth gwella ansawdd a arweinir gan wasanaeth.

Pan gyflwynodd y Panel ei adroddiad diwethaf ym mis Ebrill 2020, roedd y Cyfarwyddwr Gwella Mamolaeth wedi llwyddo i sicrhau swydd barhaol yn y Bwrdd Iechyd ac roedd y Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth wedi ymgymryd â swydd yn ddiweddar. Ar y sail honno, achubodd yr Uwch Swyddog Cyfrifol ar y cyfle i adolygu'r trefniadau presennol. O ganlyniad i hynny, penderfynodd beidio â disodli'r Cyfarwyddwr Gwella Mamolaeth a phenodi'r Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth i ymgymryd â rôl Cyfarwyddwr y Rhaglen, yn ogystal â'i swyddogaeth fel pennaeth gwasanaeth.

Er ei bod yn glir mai mater i'r Bwrdd lechyd oedd y trefniadau diwygiedig, ymgynghorwyd â'r panel ac fe lwyddodd i ddylanwadu ar fformat a strwythur y trefniadau diwygiedig i sicrhau bod capasiti a gallu digonol o fewn y tîm i gefnogi'r prosesau goruchwyllo ac adolygu clinigol.

Roedd cyfnod o seibiant yn ystod y camau cynnar tra oedd staff newydd yn cael eu recriwtio, ac fe gafwyd ambell fân broblem. Fodd bynnag, ers i'r trefniadau diwygiedig gael eu sefydlu, maent wedi bod yn fwy effeithiol ac wedi esgor ar fuddion sylweddol – un o'r prif rai yw bod y cyfrifoldeb dros y rhaglen wella a darpariaeth y gwasanaeth cael ei ysgwyddo gan un unigolyn.

Er bod hynny'n cyflwyno heriau i'r Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth o ran rheoli llwyth gwaith, mae'n fuddiol oherwydd mae penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gyflymach, mae mwy o eglurder ac mae'r effaith a'r cyrhaeddiad yn fwy eang. Mae hefyd wedi golygu, pan fo adnoddau ychwanegol ar gael, bod mwy o gapasiti wedi cael ei ddarparu er mwyn cyflymu pethau.

Efallai mai'r datblygiad pwysicaf yw bod hyn wedi galluogi ethos o ddatblygiad parhaus i gael ei ddatblygu. Mae hyn wedi'i sefydlu mewn darpariaeth weithredol ac mae'r broses wella yn cael ei pherchnogi gan y staff sy'n darparu'r gwasanaeth i raddau mwy helaeth. Mae hwn yn gam arwyddocaol ymlaen ac fe ddylai dalu ar ei ganfed wrth i'r rhaglen wella symud yn ei blaen.

8.2 CYNNYDD YN ERBYN CAMAU GWEITHREDU'R 'CAMAU NESAF'

Yn Adran 9 o'i adroddiad cynnydd ym mis Ebrill 2020, fe wnaeth y Panel nodi nifer o feysydd lle roedd yn disgwyl gweld y Bwrdd lechyd yn gwneud cynnydd yn ystod y cyfnod presennol.

Mae'r 'Camau Nesaf' hyn wedi'u nodi yn *Atodiad F*, gydag asesiad byr o sefyllfa bresennol pob un o'r camau.

Gwelir bod cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud yng nghyswllt nifer o'r camau gweithredu hyn a, lle bo gwaith i'w wneud o hyd, caiff hynny ei adlewyrchu yn y Cynllun Gwella Mamolaeth neu ei gynrychioli drwy greu camau gweithredu newydd ar gyfer y cyfnod sydd i ddod.

8.3 PENODI PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL NEWYDD

Mae'r Panel wedi mwynhau perthynas adeiladol gyda'r Prif Weithredwr Dros Dro ac mae ei chefnogaeth bersonol i'r Rhaglen Gwella Mamolaeth, a'r broses oruchwyllo annibynnol yn benodol, wedi bod yn ffactor arwyddocaol o ran y cynnydd sydd wedi'i wneud. Mae'r Panel yn edrych ymlaen at gwrdd â'r Prif Weithredwr sydd newydd gael ei benodi cyn gynted â phosibl, gyda'r gobaith y bydd perthynas debyg yn gallu cael ei datblygu wrth symud ymlaen.

9 CASGLIADAU, CAMAU NESAF AC ARGYMHELLION

9.1 CRYNODEB O'R SEFYLLFA BRESENNOL

Pan gyflwynodd y Panel ei adroddiad diwethaf ym mis Ebrill 2020, daeth i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd ar y trywydd iawn i gyflawni yn erbyn argymhellion y Colegau Brenhinol, a'i fod yn gwneud cynnydd da o ran ei uchelgais tymor hwy o greu gwasanaeth mamolaeth a newyddenedigol rhagorol.

Yn ystod y chwe mis diwethaf, er gwaethaf yr heriau annisgwyl yn sgil COVID-19, mae'r Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i gynnal ei fomentwm blaenorol a gwneud cynnydd cynyddrannol pellach yn erbyn ei gynlluniau gwella mamolaeth. Mae hyn yn cynnwys cyflawni cyfran sylweddol o argymhellion y Colegau Brenhinol, sy'n golygu bod 50 o'r 70 argymhelliad wedi'u cyflawni erbyn hyn.

Fel y gwnaed yn flaenorol, mae'r Panel wedi asesu'r dystiolaeth y mae'r Bwrdd Iechyd wedi seilio ei benderfyniad i gymeradwyo'r argymhellion hynny arni ac, mewn termau cyffredinol, mae sicrwydd rhesymol bod y penderfyniadau hynny'n briodol. Fodd bynnag, gan ystyried y cyfyngiadau yn sgil COVID-19, nid yw'r broses ddilysu wedi bod mor gadarn ag y byddai wedi bod dan amgylchiadau eraill. Oherwydd hyn, bydd angen ailymweld â rhai o'r argymhellion hyn yn ystod y cyfnod nesaf i sicrhau eu bod yn dal wedi'u sefydlu mewn ymarfer.

O ganlyniad i'r cynnydd pellach a datblygiadau eraill, mae'r Bwrdd Iechyd wedi symud ymlaen i'r cam 'Canlyniadau' yn nhri pharth perfformiad yr IPAAF. Mae'r ffaith bod hyn wedi cael ei gyflawni yn ystod pandemig COVID-19 yn adlewyrchiad gwych o'r staff ar bob lefel ac mae'n brawf o ymroddiad ac agwedd benderfynol y Bwrdd Iechyd a'i uwch dîm arwain i wella ei wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol.

Ar yr un pryd, mae nifer o ddatblygiadau eraill wedi cryfhau gallu'r Bwrdd Iechyd i gynnal y gwelliannau hyn yn y tymor hir, gan gynnwys trawsnewid y Rhaglen Gwella Mamolaeth i fod yn broses a arweinir gan wasanaeth; ailddatblygu'r Cynllun Gwella Mamolaeth i adlewyrchu ethos gwelliant parhaus diwygiedig; a'r mesurau sydd wedi cael eu rhoi ar waith i integreiddio'r gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn agosach.

Er gwaethaf y cynnydd pellach hwn, mae llawer o waith i'w wneud o hyd i gyflawni argymhellion y Colegau Brenhinol yn llawn. Mae'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu sy'n weddill yn ymwneud â materion tymor hwy sy'n fwy cymhleth (gan gynnwys diwylliant y sefydliad, capasiti arwain, cynlluniau a strategaethau tymor hwy) a fydd yn cymryd amser a ffocws parhaus i'w cyflawni i'r graddau lle gellir ystyried eu bod wedi'u cyflawni.

Yn ogystal â hyn, mae amryw o oblygiadau niweidiol wedi deillio o COVID-19 – yn fwyaf nodedig o ran gweithgareddau gwella sydd wedi cael eu gohirio, neu wasanaethau sydd wedi cael eu gohirio neu eu hatal. Bydd angen mynd i'r afael â'r holl bethau hyn yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf, a bydd hynny'n defnyddio amser a chapasiti sefydliadol a fyddai fel arall wedi cael ei ddefnyddio i wneud cynnydd cynyddrannol pellach yn erbyn y Cynllun Gwella Mamolaeth.

Un o'r meysydd sydd wedi cael ei atal yw cyflwyno Strategaeth Ymgysylltu'r Bwrdd lechyd ar gyfer 2020/23. Fodd bynnag, er bod cyfyngiad ar weithgareddau wyneb yn wyneb, mae'r gwasanaeth mamolaeth wedi datblygu amrywiaeth o ffyrdd newydd ac arloesol o gael cysylltiad dwyffordd â menywod sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Yn y cyfamser, mae proses adolygu clinigol annibynnol y Panel yn gwneud cynnydd da, ac mae'r cam cyntaf (yr ymarfer edrych yn ôl ar 2016-18) wedi hen ddechrau erbyn hyn. Disgwylir y bydd y Panel yn dechrau ysgrifennu at y menywod sy'n rhan o'r grŵp cyntaf (y categori marwolaethau a morbidrwydd ymysg mamau) yn ystod y cyfnod adrodd nesaf, a bydd yn llunio ei adroddiad 'diwedd cam' cyntaf tua diwedd 2020.

Does dim dwywaith y bydd hwn yn gyfnod anodd a all beri straen i'r menywod a'r teuluoedd dan sylw, yn ogystal â staff y Bwrdd lechyd. Bydd angen i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod yr holl adnoddau a mecanweithiau angenrheidiol ar waith i ddarparu'r cymorth emosiynol, ymarferol a gweinyddol y bydd ei angen i gefnogi'r broses cyn i'r wybodaeth gael ei rhannu â menywod a theuluoedd, neu ei rhyddhau i'r parth cyhoeddus.

Mae uwch arweinwyr y sefydliad wedi nodi bod hwn yn gyfle sylweddol i ailadeiladu ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd ac mae'n datblygu ei gynlluniau yn unol â hynny. Fodd bynnag, mae'r Panel wedi annog y Bwrdd i'w sicrhau ei hun bod y cynlluniau hynny'n ddigon cynhwysfawr a chadarn i reoli beth fydd heb os yn gam pwysig yn ei daith tuag at wella, ac yn un a allai fod yn anodd.

Er bod rheswm i fod yn obeithiol, ni fydd y chwe mis nesaf yn llai heriol na'r deunaw mis blaenorol i'r Bwrdd lechyd, ac mae mater newydd ar y gorwel a allai fod yn anodd, a bydd angen ymdrin â hwn yn ofalus ac yn sensitif.

9.2 Y CAMAU NESAF

Mewn amrywiol rannau o'r adroddiad, mae'r Panel wedi enwi 'Camau Nesaf' fydd yn darparu ffocws i'r Panel a'r Bwrdd lechyd yn ystod y cyfnod nesaf. Mae'r rhain wedi eu nodi isod er hwyluso cyfeirio:-

- **CAM GWEITHREDU 1: Adborth ar Adolygiadau Clinigol** - Byddai'r Panel yn annog y Bwrdd lechyd i gymryd camau i'w sicrhau ei hun bod y cynlluniau y mae wrthi'n ei datblygu i reoli'r broses o roi adborth ar adolygu clinigol yn gadarn ac yn gynhwysfawr.
- **CAM GWEITHREDU 2: Effaith COVID-19** - Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu effaith COVID-19 yn nhermau'r gweithgareddau neu'r prosesau hynny sydd wedi cael eu gohirio neu eu hatal, wedyn cymryd y camau gweithredu angenrheidiol i'w hadsefydlu neu eu hadfywio cyn gynted â phosibl.
- **CAM GWEITHREDU 3: Y Cynllun Gwella Mamolaeth** - O ystyried y datblygiadau diweddar yn y Cynllun Gwella Mamolaeth, dylai'r Bwrdd lechyd a'r Panel fynd ati ar y cyd i adolygu'r trefniadau monitro, gwerthuso ac adrodd ar gynnydd.

- **CAM GWEITHREDU 4: Datblygu'r IPAAF ymhellach** - Mae'r Panel o'r farn y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Bwrdd lechyd yn trefnu gweithdy amlddisgyblaethol arall yn ystod y cyfnod adrodd nesaf, er mwyn adolygu'r IPAAF presennol a chytuno ar gam nesaf ei ddatblygiad.
- **CAM GWEITHREDU 5: Integreiddio Gwasanaethau** - Dylai'r Bwrdd lechyd nodi ateb strwythurol tymor hwy a fyddai'n golygu integreiddio gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol.
- **CAM GWEITHREDU 6: Y Cylch Ymgysylltu** - Mae'r Panel o'r farn bod y map o broses y Cylch Ymgysylltu yn ddatblygiad pwysig y dylid bwrw ymlaen ag ef cyn gynted â phosibl.
- **CAM GWEITHREDU 7: Datblygu PREMS** - Mae'r Panel o'r farn bod PREMS yn ddatblygiad pwysig y dylai'r Bwrdd lechyd fwrw ymlaen ag ef cyn gynted â phosibl.
- **CAM GWEITHREDU 8: Cwynion a Phryderon** - Bydd y panel yn parhau i fonitro sut mae'r Bwrdd lechyd yn ymateb i themâu sy'n codi dro ar ôl tro mewn cwynion a phryderon.
- **CAM GWEITHREDU 9: Cyfleu Cynnydd** - Dylai'r Bwrdd lechyd ddatblygu proses ar gyfer cyfleu ei gynnydd o ran gwella gwasanaethau mamolaeth cyn gynted â phosibl.
- **CAM GWEITHREDU 10: Digwyddiadau Difrifol ar ôl Hydref 2018** - Dylai'r Bwrdd lechyd fynd ati cyn gynted â phosibl i gwblhau ei adolygiad o'r systemau a'r broses sydd eisoes ar waith ar gyfer sicrhau ansawdd a chysondeb adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol, er mwyn i'r Panel allu parhau â'i waith sicrhau ansawdd ar ôl Hydref 2018.

Bydd y camau hyn yn cael eu monitro drwy'r broses sicrwydd a sefydlwyd a bydd y Panel yn adrodd ar y cynnydd pan fydd yn llunio ei adroddiad nesaf.

9.3 ARGYMHELLION

Wrth ystyried y cynnydd sy'n cael ei wneud ac yn parhau i gael ei wneud, yn ogystal ag ymrwymiad parhaus y Bwrdd lechyd i'r broses wella, nid yw'r Panel yn teimlo bod angen gwneud unrhyw argymhellion penodol i'r Bwrdd lechyd neu'r Gweinidog eu hystyried ar hyn o bryd.

10 RHESTR O ATODIADAU

- Atodiad A:* Amserlen o Argymhellion y Colegau Brenhinol sydd wedi'u Cyflawni
- Atodiad B:* Cynnydd yn erbyn Camau Gweithredu 'Gwneud yn Ddiogel' y Colegau Brenhinol
- Atodiad C:* Cynllun Gwella Mamolaeth Lefel Uchel
- Atodiad D:* Llwybr ar gyfer Adolygiadau Clinigol
- Atodiad E:* Llwybr Hunanatgyfeirio
- Atodiad F:* Cynnydd y Bwrdd Iechyd yn erbyn Camau Gweithredu 'Camau Nesaf'

Y Cynllun Gwella Mamolaeth

Amserlen o Gamau Gweithredu y Nodwyd eu bod wedi'u Cyflawni (Ebrill - Medi 2020)

Mae Cynllun Gwella Mamolaeth gwreiddiol y Bwrdd Iechyd yn cynnwys 79 cam gweithredu. Mae 70 o'r rheini'n deillio'n uniongyrchol o argymhellion y Colegau Brenhinol, a'r gweddill yn deillio o adolygiadau cysylltiedig neu gamau gweithredu a nodwyd gan y Bwrdd Iechyd yn dilyn ei ddadansoddiad ei hun.

Yn ystod cyfnodau adrodd cynharach (Hydref 2019 - Mawrth 2020), gwiriwyd bod 41 o'r 79 camau gweithredu wedi'u cyflawni. Mae modd gweld manylion y camau gweithredu hynny yn adroddiadau cynnydd y Panel a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020 a mis Ebrill 2020.

Yn ystod y cyfnod adrodd presennol (Ebrill - Medi 2020), mae'r Panel wedi asesu tystiolaeth ategol a gyflwynwyd gan y Bwrdd Iechyd, a chytunwyd bod cynnydd wedi'i wneud ar 12 o gamau gweithredu eraill, a'u bod yn barod i gael eu nodi'n gamau sydd wedi cael eu cyflawni. Yn ogystal â hyn, mae 5 argymhelliad arall y nodwyd eu bod wedi'u cyflawni yn ystod cyfnodau blaenorol wedi cael eu hailddilysu. Mae hyn yn golygu bod cyfanswm y camau gweithredu sydd wedi'u cyflawni ar ddiwedd mis Medi 2020 yn 53.

Yn ogystal â'r 12 cam gweithredu y nodi eu bod wedi'u cwblhau yn ystod y cyfnod hwn, mae 6 arall wedi cael eu tynnu o'r Cynllun gyda chytundeb y Panel, er mwyn lleihau dyblygu a gorgyffwrdd diangen o fewn y Cynllun Gwella Mamolaeth. Mae hynny'n golygu bod 20 cam gweithredu ar ôl i'w cyflawni ac mae'r rheini i gyd ar y gweill ac ar wahanol lefelau o ran eu cyflawniad.

O'r 6 cham gweithredu a dynnwyd o'r Cynllun, nid yw un ohonynt yn berthnasol mwyach o ganlyniad i'r newidiadau yn y model gweithredu. Mae'r 5 arall yn ymwneud â gwaith sy'n cael ei wneud gan Uned Cyflawni GIG Cymru, sy'n cael ei fonitro ar wahân, ac felly nid yw'r cyfrifoldeb o gyflawni'r rhain o fewn cylch gorchwyl y Panel.

Mae manylion y 12 cam gweithredu y dilyswyd eu bod wedi'u cyflawni yn ystod y cam hwn, y 5 cam gweithredu a gafodd eu hailddilysu, a'r 6 sydd wedi cael eu tynnu o'r Cynllun, wedi'u nodi yn y tabl isod. Maent wedi cael eu grwpio i dri llif gwaith ar gyfer y prosiect (sy'n gyson â'r tri pharth perfformiad yn yr IPAAF). Un o'r argymhellion (7.68) oedd cam gweithredu a oedd yn cael ei reoli gan y Bwrdd Iechyd. Er hwylustod, mae hwn wedi cael ei gynnwys yn y parth Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth.

Mewn adroddiadau blaenorol, roedd crynodeb o'r dystiolaeth y seiliwyd y penderfyniad i gadarnhau cyflawniad y cynllun gweithredu arni yn cael ei chynnwys yn y tabl. Roedd hynny'n gwneud y ddogfen yn rhy gymhleth ac yn anodd ei chyflwyno. Nid oes crynodeb wedi'i chynnwys y tro hwn.

Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio bod trywydd archwilio cynhwysfawr sy'n darparu dolenni clir i'r dystiolaeth mae'r penderfyniad yn seiliedig arni.

Mae'n bwysig pwysleisio, o ganlyniad i'r cyfyngiadau yn sgil COVID-19, nad yw'r broses ar gyfer dilysu cyflawniad y gyfran bresennol o gamau gweithredu wedi bod mor gadarn ag yr oedd yn ystod y cyfnodau adrodd blaenorol. Caiff y rhesymau am hynny eu hesbonio'n fanylach yng nghorff yr adroddiad ac, er mwyn bod yn gryno, nid ydynt yn cael eu hailadrodd yma.

Fodd bynnag, mae hynny'n golygu, yn ystod y cyfnod adrodd nesaf, y bydd angen i'r Panel ailymweld â rhai o'r argymhellion y nodir eu bod wedi'u cyflawni yn ystod y cyfnod presennol er mwyn sicrhau eu bod wedi cael eu sefydlu mewn ymarfer gweithredol ac yn parhau i fod ar waith. Lle bo hyn yn berthnasol, cyfeirir at hynny yn y tabl.

Amserlen o Gamau Gweithredu y Gwiriwyd eu bod wedi'u Cyflawni – Ebrill - Medi 2020

FFRWD WAITH Y PROSIECT: Gofal Diogel ac Effeithiol				
Cyfeirnod y Cam Gweithredu:	Ffynhonnell	Argymhelliad	Dyddiad Cadarnhau Cyflawniad	Angen adolygiad dilynol?
7.2	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Nodi unigolion a enwebir i sicrhau bod yr holl ganllawiau mamolaeth:- - yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd; - ar gael yn rhwydd i staff; - yn defnyddio dull Tîm Amlddisgyblaethol; - yn cael eu dilyn mewn ymarfer.	NEWYDD 03.08.2020	Dilysu seiliedig ar asesiad o dystiolaeth ddogfennol a sgysiau treiddgar gyda chlinigwyr a rheolwyr. Efallai bydd angen cymryd camau dilynol ar ôl COVID-19 i sicrhau bod hyn wedi'i sefydlu mewn ymarfer.
7.21	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Gwella'r broses o adrodd ar ddigwyddiadau drwy wneud y canlynol:- - darparu hyfforddiant i'r holl staff ar ddefnyddio system Datix; - annog pobl i ddefnyddio system Datix i gofnodi digwyddiadau clinigol; - monitro defnydd y system cofnodi digwyddiadau.	WEDI AILDDILYSU 03.08.2020	Dilysu seiliedig ar asesiad o dystiolaeth ddogfennol a sgysiau treiddgar gyda chlinigwyr a rheolwyr. Efallai bydd angen cymryd camau dilynol ar ôl COVID-19 i sicrhau bod hyn wedi'i sefydlu mewn ymarfer.

Cyfeirnod y Cam Gweithredu:	Ffynhonnell	Argymhelliad	Dyddiad Cadarnhau Cyflawniad	Angen adolygiad dilynol?
7.23	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Gwella'r broses o ddysgu o ddigwyddiadau drwy wneud y canlynol:- - rhannu'r canlyniadau sy'n deillio o ddigwyddiadau difrifol yn rheolaidd. - rhannu mewn fformat priodol, rheolaidd a hygyrch.	WEDI AILDDILYSU 03.08.2020	Dilysu seiliedig ar asesiad o dystiolaeth ddogfennol a sgysiau treiddgar gyda chlinigwyr a rheolwyr. Efallai bydd angen cymryd camau dilynol ar ôl COVID-19 i sicrhau bod hyn wedi'i sefydlu mewn ymarfer.
7.25	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Penodi arweinydd bydwreigiaeth ymgynghorol ar gyfer archwiliadau clinigol a sicrhau ansawdd, er mwyn sicrhau bod: - archwiliadau clinigol yn cael eu cynnal gan dîm amlddisgyblaethol; - staff yn cael eu hannog i gynnal archwiliadau; - canlyniadau'n cael eu rhannu; - system wedi'i dilysu'n glinigol yn cael ei defnyddio ar gyfer data.	WEDI AILDDILYSU 12.08.2020	Edrych ar hyn ar ôl chwe mis.

FFRWD WAITH Y PROSIECT: Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Cyfeirnod y Cam Gweithredu:	Ffynhonnell	Argymhelliad	Dyddiad Cadarnhau Cyflawniad	Angen adolygiad dilynol?
7.15	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Addysgu'r holl staff am atebolrwydd a phwysigrwydd rheoli risg, adrodd ac adolygu ar Datix, ac uwchgysfeirio pryderon yn amserol. Dylid cynnwys hyn wrth:- - sefydlu meddygon iau; - sefydlu staff locwm; - sefydlu staff bydwreigiaeth; - gynnal hyfforddiant blynyddol gorfodol.	NEWYDD 12.08.2020	Dilysu seiliedig ar asesiad o dystiolaeth ddogfennol a sgysiau treiddgar gyda chlinigwyr a rheolwyr. Efallai bydd angen cymryd camau dilynol ar ôl COVID-19 i sicrhau bod hyn wedi'i sefydlu mewn ymarfer.
7.18	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Cytuno ar ddulliau cydlynus ar gyfer gwaith meddygon ymgynghorol ar ôl yr uniad, gyda mewnbwn gan gydweithwyr ym maes anestheteg a phediatreg.	NEWYDD 12.08.2020	Dilysu seiliedig ar asesiad o dystiolaeth ddogfennol a sgysiau treiddgar gyda chlinigwyr a rheolwyr. Efallai bydd angen cymryd camau dilynol ar ôl COVID-19 i sicrhau bod hyn wedi'i sefydlu mewn ymarfer.
7.22	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Trafod Digwyddiadau Difrifol yn rhagweithiol.	NEWYDD 03.08.2020	Dilysu seiliedig ar asesiad o dystiolaeth ddogfennol a sgysiau treiddgar gyda chlinigwyr a rheolwyr. Efallai bydd angen cymryd camau dilynol ar ôl COVID-19 i sicrhau bod hyn wedi'i sefydlu mewn ymarfer.
7.29	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Monitro oriau sy'n cael eu bancio gan fydwragedd a gyflogir gan Cwm Taf yn agos, i sicrhau:- - nad yw cyfanswm yr oriau'n ormod; - bod y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â'r Gyfarwydddeb Orlaw Gwaith Ewropeaidd; - nad yw'r rhain yn peryglu diogelwch.	WEDI AILDDILYSU 03.08.2020	

Cyfeirnod y Cam Gweithredu:	Ffynhonnell	Argymhelliad	Dyddiad Cadarnhau Cyflawniad	Angen adolygiad dilynol?
7.30	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Sicrhau bod y Cyfarwyddwr Meddygol yn goruchwyllo ac yn rheoli'r corff o feddygon ymgynghorol drwy wneud y canlynol: • gwneud yn siŵr eu bod ar gael ac yn ymateb i anghenion y gwasanaeth; • adolygu cynlluniau swyddi a chytuno arnynt ar frys i sicrhau bod anghenion y gwasanaeth yn cael eu diwallu; • egluro beth mae angen ei gynnwys fel rhan o weithgarwch SPA (archwilio, llywodraethu, addysgu, canllawiau, sicrhau ansawdd, hyfforddi mwy o obstetregwyr ymgynghorol fel arfarnwyr); • sicrhau bod y menywod fwyaf sâl yn cael eu gweld gan feddyg ymgynghorol yn gyntaf, a bod yr holl fenywod yn cael eu gweld gan feddyg ymgynghorol cyn pen 12 awr, sef argymhelliad yr Ymchwiliad Cyfrinachol Cenedlaethol i Ganlyniadau a Marwolaethau Cleifion (safon genedlaethol).	NEWYDD 12.08.2020	Dilysu seiliedig ar asesiad o dystiolaeth ddogfennol a sgysiau treiddgar gyda chlinigwyr a rheolwyr. Efallai bydd angen cymryd camau dilynol ar ôl COVID-19 i sicrhau bod hyn wedi'i sefydlu mewn ymarfer.

Cyfeirnod y Cam Gweithredu:	Ffynhonnell	Argymhelliad	Dyddiad Cadarnhau Cyflawniad	Angen adolygiad dilynol?
7.32	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Sicrhau bod cyflenwad ar gyfer swyddi obstetryddion ymgynghorol ym mhob maes clinigol pan fo angen, drwy: • adolygu'r amserlenni clinigol i sicrhau cyflenwad swyddi 12 awr ar ward esgor; • cynnal cyfres o ymweliadau ag unedau lle mae presenoldeb estynedig o feddygon ymgynghorol wedi cael ei sicrhau ar ward esgor; • ystyried gweithio mewn timau i sicrhau bod uwch aelod o'r tîm ar gael mewn clinigau ac yn trawsgyflenwi ar gyfer ei gilydd; • ystyried defnyddio amser meddygon ymgynghorol yn greadigol yn ystod oriau arferol a thu allan i oriau, i gyfyngu ar y defnydd o feddygon locwm.	NEWYDD 12.08.2020	Dilysu seiliedig ar asesiad o dystiolaeth ddogfennol a sgysiau treiddgar gyda chlinigwyr a rheolwyr. Efallai bydd angen cymryd camau dilynol ar ôl COVID-19 i sicrhau bod hyn wedi'i sefydlu mewn ymarfer.
7.34	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Dynodi goruchwyliwr clinigol a goruchwyliwr addysgol ar gyfer pob hyfforddai sydd mewn swydd ar hyn o bryd. • dylai rôl y goruchwyliwr clinigol a'r goruchwyliwr addysgol gael ei chofnodi a'i monitro'n fanwl gan y Cyfarwyddwr Addysg Feddygol. • rhaid i'r asesiadau o gymhwysedd hyfforddeion gael eu darparu'n fewnol o dan oruchwyliaeth tiwtor y Coleg Brenhinol.	WEDI AILDDILYSU 03.08.2020	Dilysu seiliedig ar asesiad o dystiolaeth ddogfennol a sgysiau treiddgar gyda chlinigwyr a rheolwyr. Efallai bydd angen cymryd camau dilynol ar ôl COVID-19 i sicrhau bod hyn wedi'i sefydlu mewn ymarfer.

Cyfeirnod y Cam Gweithred u:	Ffynhonnell	Argymhelliad	Dyddiad Cadarnhau Cyflawniad	Angen adolygiad dilynol?
7.37	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Datblygu rhaglen addysgu amlddisgyblaethol ar draws yr adran gyfer:- • rhaid cael adnoddau digonol ar gyfer hyn; • neilltuo amser i'r holl grwpiau staff ddilyn y rhaglen, gan gynnwys bydwagedd clinigol arbenigol a meddygon arbenigol ac arbenigwyr cyswllt; • rhaid monitro ac adolygu presenoldeb yn yr arfarniad.	NEWYDD 03.08.2020	Dilysu seiliedig ar asesiad o dystiolaeth ddogfennol a sgysiau treiddgar gyda chlinigwyr a rheolwyr. Efallai bydd angen cymryd camau dilynol ar ôl COVID-19 i sicrhau bod hyn wedi'i sefydlu mewn ymarfer.
7.57	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Parhau ag ymdrechion i recriwtio a chadw staff .	NEWYDD 03.08.2020	Dilysu seiliedig ar asesiad o dystiolaeth ddogfennol a sgysiau treiddgar gyda chlinigwyr a rheolwyr. Efallai bydd angen cymryd camau dilynol ar ôl COVID-19 i sicrhau bod hyn wedi'i sefydlu mewn ymarfer.
7.62	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Rhaid i Aelodau Annibynnol o'r Bwrdd ymchwilio i ddiffyg gweithredu'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol ar ôl cael adroddiad y fydwraig ymgynghorol ym mis Medi 2018. • Rhaid i Aelodau Annibynnol o'r Bwrdd herio'r weithrediaeth ynghylch yr adroddiad hwn; • Rhaid i Aelodau Annibynnol o'r Bwrdd sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth lawn.	NEWYDD 27.08.2020	

FFRWD WAITH Y PROSIECT: Ansawdd Profiadau Menywod

Cyfeirnod y Cam Gweithredu:	Ffynhonnell	Argymhelliad	Dyddiad Cadarnhau Cyflawniad	Angen adolygiad dilynol?
7.47	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Datblygu a chryfhau rôl a chapasiti'r Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth i weithredu fel hyb ar gyfer casglu safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth a chynnwys menywod a theuluoedd er mwyn gwella gofal mamolaeth; a gwneud y canlynol:- • penodi Cadeirydd Lleyg fel mater o flaenoriaeth; • cynyddu nifer yr aelodau lleyg gyda chymorth ac adnoddau priodol; • cefnogi aelodau lleyg i ymgysylltu â menywod gan ddefnyddio gwasanaethau yn Uned Meddygaeth y Ffetws yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac yn Ysbyty Tywysog Cymru i asesu bodlonrwydd ac i nodi materion sy'n ymwneud â dewisiadau; • ehangu rôl fonitro'r Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth i asesu a oes patrymau mewn pryderon ac i ofyn am adborth rheolaidd ar y camau a gymerir.	03.08.2020	
7.49	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Datblygu'r ystod a'r cwmpas ar gyfer ymgysylltu â menywod a theuluoedd:- • adolygu pa mor effeithiol yw methodoleg profiad y claf a'i effaith ar newid a gwella gwasanaethau o ganlyniad i adborth; • fel mater o flaenoriaeth, adolygu a mynd i'r afael â'r broses o fonitro canlyniadau profiadau cleifion fel rhan allweddol o'r strwythur llywodraethu; • rhoi adborth ar ganlyniadau'r holl ymgysylltu i fenywod a theuluoedd; • archwilio dulliau o glywed yn uniongyrchol gan fenywod a theuluoedd am eu profiad, gan gynnwys straeon cleifion, dyddiaduron, technegau arsylwi neu 'gwsmer cudd'.	12.08.2020	
7.52	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Dysgu o brofiadau menywod a theuluoedd y mae digwyddiadau wedi effeithio arnynt:- • ymateb i deuluoedd a gweithio gyda nhw yn unol â'r hyn sy'n ofynnol; • ymgorffori'r dysgu yn nyluniad rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant a chymorth a fydd yn rhoi hyder i fenywod a theuluoedd yn sgiliau, arbenigedd, cyfathrebu, a diogelwch ac ansawdd gofal mamolaeth.	03.08.2020	

Amserlen o Gamau Gweithredu a Dynnwyd o'r Cynllun – Ebrill - Medi 2020

Cyfeirnod y Cam Gweithredu:	Ffynhonnell	Argymhelliad
7.71 (DU)	Uned Esgor	Symleiddio'r prosesau presennol ar gyfer adolygu digwyddiad a sicrhau mai 'diogelwch cleifion' yw ffocws yr adolygiad (yn hytrach na graddio ar gyfer adroddiadau allanol).
7.73 (DU1a)	Uned Esgor	Datblygu cofnod o'r cynlluniau gweithredu cyfanredol ar gyfer monitro'r broses rhoi ar waith.
7.76 (DU 4)	Uned Esgor	Sicrhau newid cynaliadwy yn y broses adrodd ar gyfer Bydwreigiaeth, sy'n rhoi sicrwydd yr adroddir ar ddigwyddiadau ac yr ymchwilir iddynt yn unol â gofynion Gweithio i Wella.
7.77 (DU 5)	Uned Esgor	Mynd ati i gynnal adolygiad cyflym o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion lle mae problemau gyda darparu gofal neu wasanaeth yn codi pryderon, a rhoi camau diogelu ar waith ledled y Bwrdd Iechyd. Adolygu dull y Bwrdd Iechyd ar gyfer cynnal ymchwiliadau, gan gynnwys monitro camau gweithredu a'u rhoi ar waith.
7.78 (DU 6)	Uned Esgor	Adolygu'r broses gorfforaethol ar gyfer adrodd ar yr holl ddigwyddiadau a phryderon ac ymchwilio iddynt, gan gynnwys y trefniadau llywodraethu sy'n rhoi sicrwydd i'r bwrdd. Egluro'r rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer rheoli digwyddiadau ar draws y sefydliad, sy'n dangos y llwybrau atebolrwydd ar gyfer rheoli risg digwyddiadau a dysgu ar draws y sefydliad.
7.79	Bwrdd Iechyd	Theatr mamolaeth i gael ei rheoli gan ACT yn unol â'r safonau cenedlaethol.

Diweddariad ar Gynnydd - Camau Gweithredu 'Gwneud yn Ddiogel' Heb eu Cyflawni o Adroddiad Cynnydd Ebrill 2020

Camau gweithredu 'Gwneud yn Ddiogel'	Diweddariad ar Gynnydd	Statws Presennol
6. Diffyg ymwybyddiaeth o ganllawiau, protocolau, sbardunau ac uwchgyfeirio a mynediad atynt.	Dros y chwe mis diwethaf, mae rhaglen waith wedi cael wedi bod ar waith i adolygu, blaenoriaethu a diweddarau polisïau, protocolau a chanllawiau ar draws tri safle BIPCTM. Mae'r gwaith wedi cael ei gwblhau erbyn hyn ac fe nodir bod y cam gweithredu priodol (argymhelliad 7.2 Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr) wedi cael ei gwblhau o fewn y Cynllun Gwella Mamolaeth a'i gadarnhau gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Mae'r Panel wedi adolygu tystiolaeth ddogfennol a thrafod rhoi'r polisi ar waith gyda'r staff meddygol a mamolaeth, yn ogystal â dilysu bod y penderfyniad i nodi bod yr argymhelliad wedi'i gyflawni yn rhesymol. Mae Grŵp Polisi Aml-ddisgyblaethol wedi cael ei sefydlu i oruchwylio'r gwaith o ddiweddarau canllawiau yn y dyfodol ac mae blaen-gynllun wedi cael ei sefydlu ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae angen mewnbwn ffarmacolegol pellach ar gyfer 7 polisi ond disgwylir y bydd hyn wedi'i gyflawni erbyn diwedd mis Medi 2020. Mae'r Panel eisoes wedi dilysu bod prosesau ar waith i wneud canllawiau yn fwy hygyrch i staff. Dylid nodi bod gwaith yn dal yn cael ei wneud i adolygu a diweddarau polisïau a chanllawiau newyddenedigol.	WEDI CWBLHAU. DIM ANGEN GWEITHREDU PELLACH.
10. Nid yw lefelau staffio bydwreigiaeth yn cydymffurfio â chanfyddiadau adolygiad Birthrate plus® yn 2017. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd fonitro hyn mewn amser real ar lefel uwch i asesu a oes angen defnyddio'r protocolau uwchgyfeirio sydd wedi cael eu sefydlu i sicrhau diogelwch cleifion.	Cynhaliwyd Adolygiad Birthrate plus® pellach yn ystod haf 2019 a daeth adroddiad yr asesiad i law'r Bwrdd Iechyd ym mis Tachwedd 2019. Treuliodd y tîm mamolaeth gryn amser yn adolygu'r canfyddiadau ac roedd angen gwneud rhywfaint o waith ychwanegol i ddehongli'r data, ar sail amgylchiadau lleol. Ers hynny, mae'r Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth wedi cadarnhau bod y lefelau sefydlu presennol yn gwbl gyson ag argymhellion Birthrate plus® a does dim angen adnoddau ychwanegol i sicrhau cydymffurfiaid. Fel yr adroddwyd eisoes, mae lefelau staffio wedi bod, ac yn dal i fod, yn destun prosesau monitro ac uwchgyfeirio trwyadl ar lefel byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru. Mae'r prosesau hyn yn dal ar waith (er eu bod yn llai dwys erbyn hyn) ac maent yn cael eu harsylwi gan y Panel yn achlysurol. Mae lefelau staffio'n dal i amrywio dros amser. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn gweithredu o gwmpas ei lefel sefydlu, ac mae unrhyw amrywiad yn cael ei ystyried yn sefyllfa 'busnes fel arfer'. Er bod argymhelliad y Colegau Brenhinol wedi cael ei ddiddymu ers rhai misoedd erbyn hyn, mae'r panel wedi bod yn annog y Bwrdd Iechyd i ddatblygu cynllun tymor hwy ar gyfer y gweithlu er mwyn sicrhau bod ffocws parhaus ar faterion fel rheoli salwch a defnyddio goramser, a bod dyraniad staff yn cael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o'r adnoddau sydd ar gael. Cyflwynwyd Cynllun y Gweithlu i'r Bwrdd Gwella Mamolaeth ym mis Awst 2020. Mae wedi cael ei adolygu gan Arweinwyr Clinigol y Panel a bernir ei fod yn briodol. Mae camau gweithredu tymor hwy wedi cael eu hadlewyrchu yn y Cynllun Gwella Mamolaeth a byddant yn cael eu monitro gan y Bwrdd Gwella Mamolaeth a phrosesau goruchwylio'r Panel wrth symud ymlaen.	WEDI CWBLHAU. DIM ANGEN GWEITHREDU PELLACH.

11. Mae diwylliant y gwasanaeth yn parhau i gael ei weld fel diwylliant cosbedigol. Mae staff angen cymorth a chefnogaeth gan uwch reolwyr ar yr adeg anodd hon.	Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud llawer iawn o waith dros y deunaw mis diwethaf i gyflawni'r newid yn niwylliant y sefydliad yr amlygwyd ei fod yn angenrheidiol yn adroddiad y Colegau Brenhinol. Mae'r gwaith yn ehangach na gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol ac mae'n rhan o'r rhaglen datblygu sefydliadol a luniwyd mewn ymateb i'r broses ymyrraeth wedi'i thargedu. Mae rhaglen datblygu sefydliadol gynhwysfawr wedi cael ei llunio ar lefel y Bwrdd Iechyd, sy'n cynnwys mewnbyn ynghylch datblygu arweinyddiaeth, gwerthoedd ac ymddygiadau, ac ymwybyddiaeth ofalgar, ac mae hyn yn cael ei gyflwyno'n systematig ledled y sefydliad. Yn adroddiad blaenorol y Panel, adroddwyd ar y cynnydd a oedd wedi cael ei wneud hyd at fis Ebrill 2020 o ran cyflwyno'r rhaglen i'r gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol. Ers yr adeg honno, mae'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen wedi cael ei ohirio oherwydd COVID-19, er bod y Bwrdd Iechyd wrthi'n ystyried pryd dylid ailgydio ynddo. Mae newid diwylliant yn cymryd amser ac mae'n dal yn rhy fuan i allu nodi bod y cam gweithredu hwn wedi'i gyflawni. Fodd bynnag, mae'r Panel wedi gweld tystiolaeth glir dros y deunaw mis diwethaf bod diwylliant y sefydliad yn newid er gwell, ac mae'r dystiolaeth i ategu'r farn hon wedi'i dogfennu'n helaeth mewn adroddiadau blaenorol. Mae'r newid cadarnhaol mewn diwylliant hefyd yn cael ei adlewyrchu mewn adborth gan gleifion drwy arolygon PALS, o adolygiadau annibynnol allanol (e.e. y rheini a gynhelir gan y Cyngor Iechyd Cymuned) ac o arsylwadau annibynnol y panel o ymddygiadau ymysg staff ac uwch reolwyr. Mae'n bwysig pwysleisio bod newid sylweddol wedi bod yn arweinyddiaeth y gwasanaeth ar bob lefel. Mewn sawl ffordd, er bod llawer o waith i'w wneud o hyd, mae'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu nawr yn hanfodol wahanol i'r un a adolygwyd gan y Colegau Brenhinol, ac nid yw'r Panel yn gweld unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu bod diwylliant cyffredinol y sefydliad, yn yr amgylchedd presennol, yn broblem arwyddocaol o ran diogelwch. Nid yw hynny'n golygu bod y gwaith o newid diwylliant y sefydliad wedi cael ei gwblhau. A dweud y gwir, mae'n gwestiwn a fydd hi byth yn bosibl dweud bod y newid diwylliannol wedi cael ei gyflawni'n llwyr oherwydd mae'n broses gymhleth a pharhaus. Fodd bynnag, mae cynnydd yn cael ei fonitro drwy gamau gweithredu parhaus o fewn y Cynllun Gwella Mamolaeth ac, ym marn y Panel, does dim angen adrodd arno ar wahân fel problem ddiogelwch barhaus erbyn hyn.	CYNNYDD SYLWEDDOL OND YN DAL AR Y GWEILL. DS. Bydd datblygiadau yn y dyfodol yn cael eu monitro drwy broses y Cynllun Gwella Mamolaeth.
---	--	---

Cynllun Gwella Mamolaeth Lefel Uchel

	Ionawr - Mawrth 2020	Ebrill - Mehefin 2020	Gorffennaf - Medi 2020	Hydref - Rhagfyr 2020	Ionawr - Mawrth 2021	Ebrill - Mehefin 2021
Y PROSIECT GOFAL DIOGEL AC EFFEITHIOL						
Gweithio i wella	Gwella prosesau cwynion a digwyddiadau difrifol i sicrhau adrodd, dysgu (7.20), parhad a rhannu, lleihau nifer y cwynion sydd heb eu datrys a gwella profiad menywod a theuluoedd wrth ddilyn y broses gwynion (7.19)				.	Monitro Parhaus
	Adolygu, brysennu a dysgu o Adolygiadau Clinigol Cam 1 – yn dechrau fis Ionawr 2020 – y dyddiad targed i gwblhau hynny yw Ebrill 2021					
	Sicrhau ymateb i bryderon a chwynion – 7.51					
Gwella Ansawdd	Prosiectau Gwella Ansawdd 1. Cyfraddau toriadau Cesaraidd 2. Prysuro'r Geni					
Rheoli Ansawdd	Adolygu'r systemau sydd ar waith i gasglu data ar frys (7.1)					
Cynllunio ar gyfer Ansawdd	Datblygu Achos Busnes ar gyfer Gofal ag Urddas i Fenywod sydd wedi profi Camesgoriad (7.7)					

Allwedd:

Gweithred Hanfodol

Argymhelliad wedi ei gwblhau

Parhau i wella

Llithro

	Ionawr - Mawrth 2020	Ebrill - Mehefin 2020	Gorffennaf - Medi 2020	Hydref - Rhagfyr 2020	Ionawr - Mawrth 2020	Ebrill - Mehefin 2021
PROSIECT ANSAWDD ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH						
Iechyd a Lles Staff	Datblygu Cynllun Lles i Staff i gynnwys arolwg staff a rhaglen i leihau cyfraddau salwch.			Cyfraddau salwch o fewn yr amrediad	Monitro parhaus	
Cynllunio'r Gweithlu	Datblygu cynlluniau recriwtio a chadw mwy hirdymor (7.57) - Sicrhau bod modd llenwi sifftiau mewn gwasanaethau obstetrig ym mhob maes clinigol (7.32) - yn disgwyl adolygiad Adolygu arferion gweithio o ran ymgynghorwyr yn cyflenwi ar gyfer gwasanaethau Gynae ar ôl yr uno (7.39) ym Medi 2020					
Gweithlu Medrus	Cynnal a defnyddio dadansoddiadau o anghenion hyfforddiant ar gyfer cynllunio hyfforddiant, gwella hyfforddiant gorfodol a chydymffurfiaeth ag Adolygiadau Datblygu Personol (7.35) Gwella cydymffurfiaeth â hyfforddiant clinigol a'i gefnogi (7.17, 7.34, 7.35, 7.37, 7.44 a 7.45) Sicrhau hwyluso allanol er mwyn galluogi adolygiad o arferion gweithio (7.8) Addysgu staff am atebolrwydd a phwysigrwydd rheoli risg, adrodd trwy Datix, ac uwchgyfeirio pryderon (7.15, 7.22) - Mehefin 2020 – Arfaethedig					
Gwerthoedd ac ymddygiad	Gweithredu Rhaglen Datblygu Sefydliadol a Gwerthuso Canlyniadau (7.17, 7.42, 7.56)					
Arweiniad a Throsolwg	Penodi Tîm Arweinyddiaeth newydd (7.69)	Gweithredu hyfforddiant arweinyddiaeth a datblygu'r bwrdd, a datblygu model cynllunio olyniaeth				

PROSIECT ANSAWDD PROFIAD MENYWOD A THEULUEDD						
Fy Mamolaeth I, Fy Ffordd I	Ymgynghir i recriwtio mwy o aelodau lleys (7.47) – wedi'i ddilysu - monitro parhaus					
Cyd-gynhyrchu	Parhaus - Cydweithio â'r Cyngorau lechyd Cymuned, menywod a theuluoedd - ymgysylltu parhaus trwy ddigwyddiadau ymgysylltu cyhoeddus a digwyddiadau'r Bwrdd Prosiect, a defnyddio adborth i lywio Prosiectau Gwella Ansawdd					
	Sefydlu Grwp Gorchwyl a Gorffen i wella profiad menywod a'u partneriaid (7.49) – Arfaethedig					
Ymgysylltu	Datblygu cynllun ymgysylltu â'r gymuned wedi ei lunio ar y cyd ar gyfer 2020-2023 (7.53, 7.54)					
Listening Into Action	Cynllun er mwyn cyflwyno Mesur Profiadau a Adroddwyd gan Gleifion (PREM) ar gyfer Mamolaeth wedi'i ddilysu i'r gwasanaeth (7.52)					
Gweledigaeth ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth	Datblygu Gweledigaeth ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth ar y cyd â menywod, teuluoedd a rhanddeiliaid (7.67)					

Allwedd:

Gweithred Hanfodol

Argymhelliad wedi ei gwblhau


Parhau i wella

Llithro

Llwybr ar gyfer Adolygiadau Clinigol

Y PANEL TROSOLWGW ANNIIBYNNOL
AR WASANAETHAU MAMOLAETH
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

RHAGLEN ADOLYGIADAU CLINIGOL



Llwybr Hunanatyfeirio

Hunangyfeiriadau



Sut rydyn ni'n delio â Hunangyfeiriadau

Rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth â menywod a theuluoedd i ateb cwestiynau, gan ganolbwyntio ar ddysgu a gwella.

1. Os oes cwestiynau neu bryderon gyda chi am unrhyw ofal mamolaeth gawsoch chi cyn y 31ain o Hydref 2018, gallwch chi ofyn i hyn gael ei ystyried o dan y Broses Hunangyfeirio. Os cawsoch chi ofal ar ôl y dyddiad hwn, bydd eich pryderon yn cael eu hadolygu yn unol â gweithdrefnau 'Gweithio i Wella', sy'n cael eu rheoli gan y Bwrdd Iechyd.
2. Os yw'r broses hunangyfeirio yn berthnasol i'ch gofal chi, byddwn ni'n edrych yn gyntaf i weld a yw'ch sefyllfa chi'n bodloni meini prawf y Panel Trosolwg Annibynnol ar Famolaeth. Os felly, byddwn ni'n cyfeirio'ch gofal chi at y Panel ac yna byddan nhw'n cysylltu â chi er mwyn esbonio beth fydd yn digwydd nesaf.
3. Os nad yw'ch sefyllfa'n bodloni'r meini prawf, bydd Uwch-Fydwraig yn cysylltu â chi er mwyn trafod eich cwestiynau neu'ch pryderon, naill ai dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Gallai hyn gynnwys mynd trwy gofnodion blaenorol ac adolygiadau i weld a oes modd ateb eich cwestiynau neu'ch pryderon.
4. Mae'n bosibl y byddwch chi'n penderfynu ar ôl y cam hwn bod yr Uwch-Fydwraig wedi mynd i'r afael â'ch cwestiynau a'ch pryderon mewn ffordd sy'n eich bodloni. Os nad ydych chi'n fodlon, a hoffech chi i'r mater gael ei adolygu ymhellach, bydd yr Uwch-Fydwraig yn gwneud argymhelliad i'r Panel Trosolwg Annibynnol ar Famolaeth am y ffordd orau o gynnal yr adolygiad.
5. Gallai'r adolygiad gael ei gynnal gan y Bwrdd Iechyd, neu fel arall gallai trefnu adolygiad annibynnol fod yn addas. Bydd pob adolygiad yn cael ei gynnal yn unol ag egwyddorion 'Gweithio i Wella'. Bydd y Fydwraig Arweiniol yn esbonio'r broses i chi, a bydd hi'n ystyried eich barn chi wrth wneud argymhelliad i'r Panel.
6. Bydd y Panel Annibynnol yn ystyried argymhelliad y Fydwraig Arweiniol, ynghyd â'ch barn chi, ac yn penderfynu ar y ffordd orau o gynnal yr adolygiad. Byddan nhw'n esbonio eu penderfyniad i chi, ynghyd â'r rhesymau dros wneud y penderfyniad.
7. Ar ôl i'r adolygiad gael ei gwblhau, boed hynny gan y Bwrdd Iechyd neu'n annibynnol, bydd y canfyddiadau a'r casgliadau yn cael eu cyfeirio yn ôl at y Panel Annibynnol er mwyn iddyn nhw gael eu hystyried ymhellach. Bydd y canfyddiadau'n cael eu rhannu â chi hefyd, a byddwch chi'n cael y cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau eraill sydd gyda chi.
8. Gan weithio gyda'r Panel, byddwn ni'n sicrhau bod unrhyw wersi sydd yn dod o adolygiad eich gofal yn cael eu hystyried yn ofalus, a'u bod yn arwain at welliannau i'r gofal rydyn ni'n ei ddarparu yn y dyfodol.

1

GWEITHIO I WELLA

Y broses ar gyfer delio â chwynion a phryderon yn y 12 mis diwethaf.

2

ADOLYGIAD CLINIGOL ANNIBYNNOL

Adolygu achosion sy'n bodloni meini prawf y cam cyntaf 2016-18.

3

HUNANGYFEIRIO

Er mwyn ateb cwestiynau, pryderon a/neu i gefnogi adolygiadau nad yw 1 a 2 yn delio â nhw.



Tim Hunangyfeirio

Mae Bydwraig Arweiniol newydd yn y swydd. Mae hi yn y broses o benodi mwy o staff i ymateb.



Cefnogaeth Emosiynol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi comisiynu gwasanaethau cwnsela emosiynol i gefnogi menywod a theuluoedd.



Sut i gysylltu
CTUHB_Concerns@
wales.nhs.uk
neu

01443 744915

Camau Gweithredu ar gyfer y Camau Nesaf sy'n Codi o Adroddiad Cynnydd Gwanwyn 2020

Cam Gweithredu	Crynodeb o'r Cynnydd ar 31 Awst 2020	Statws
Cam Gweithredu 1: Dadansoddiad Thematig - Mae'r Panel yn disgwyl i ddadansoddiad thematig o ddeiliant y tri digwyddiad ymgysylltu a gynhaliwyd yn ystod 2019/20 gael ei gyhoeddi, ynghyd â chynlluniau gweithredu manwl fydd yn deillio ohono.	Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyhoeddi ei Gynllun Ymgysylltu ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth 2020/23, sy'n cynnwys crynodeb o'r dadansoddiad thematig o'r adborth a gasglwyd o ddigwyddiadau ymgysylltu 2019/20, a manylion y rhaglen waith a fydd yn deillio o hynny. Cyflwynwyd y cynllun i'r Panel ym mis Awst 2020 a bydd yn cael ei fonitro'n barhaus drwy brosesau'r Cynllun Gwella Mamolaeth a'r IPAAF. Ceir mwy o fanylion yn Adran 6.2 yr adroddiad hwn. Mae grŵp prosiect wedi cael ei sefydlu er mwyn bwrw ymlaen â datblygiad y PREMS ac mae achos busnes wedi cael ei ddatblygu. Mae hwn wedi cael ei gymeradwyo ar lefel gorfforaethol yn ddiweddar ac mae'r cyllid wedi cael ei neilltuo. Mae'r amserlenni ar gyfer cyflwyno wrthi'n cael eu datblygu. Mae'r Panel o'r farn bod hwn yn ddatblygiad pwysig a bydd yn monitro cyflawniad yn ystod y cyfnod nesaf (gweler Camau Nesaf – Cam Gweithredu 6).	WEDI CWBLHAU
Cam Gweithredu 2: Cynllun Ymgysylltu ar gyfer 2020/21 - Mae'r Panel yn edrych ymlaen at gyhoeddi Cynllun Ymgysylltu'r Gwasanaethau Mamolaeth ar gyfer 2020/21, ac yn benodol at lansio'r adnodd monitro adborth sydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd (PREMS).		PARHAUS (Gweler Camau Nesaf – Cam Gweithredu 6 yn Adroddiad Cynnydd Mis Medi)
Cam Gweithredu 3: Cwynion a Phryderon - Ar ôl i hynny gael ei gymeradwyo, bydd y Panel yn disgwyl y bydd y Cynllun Gwella Cwynion a Phryderon yn rhan reolaidd o adroddiadau'r Bwrdd Iechyd ar berfformiad, a bydd eisiau gweld metrigau perfformiad perthnasol yn cael eu cynnwys yng nghamau nesaf y gwaith o ddatblygu'r IPAAF.	Mae adroddiad misol ar gynnydd yn erbyn y CCIP yn cael ei gyflwyno i'r Panel a Phwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Iechyd drwy'r Bwrdd Gwella Mamolaeth. Mae dangosfwrdd adrodd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, a fydd yn rhoi sail i asesiadau yn erbyn yr IPAAF yn y dyfodol. Roedd adroddiadau cynnar yn awgrymu gwell cydymffurfiad ag amserlenni Gweithio i Wella a lleihau niferoedd. Fodd bynnag, mae'r Panel yn poeni bod y themâu sy'n codi dro ar ôl tro yn debyg i'r materion a godir gan Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr. Trafodir hyn ymhellach yn Adran 6.3 a bydd yn destun monitro pellach (gweler Camau Nesaf – Cam Gweithredu 8).	PARHAUS (Gweler Camau Nesaf – Cam Gweithredu 8 yn Adroddiad Cynnydd Mis Medi)

Cam Gweithredu 4: IPAAF - Mae angen gwneud mwy o waith er mwyn cyfuno'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud o ran datblygu metrigau ar gyfer yr IPAAF, yn arbennig o ran (i) enwi trothwyon neu dargedau perfformiad pan fo hynny'n briodol, (ii) ategu meysydd pan fo'r metrigau yn gyfyngedig (yn arbennig Profiadau Menywod a Theuluoedd) a (iii) sicrhau alinio parhaus â'r fframwaith perfformiad Cymru gyfan ymddangosol.	Mae'r IPAAF wedi cael ei ddatblygu ymhellach yn ystod y cyfnod adrodd presennol ac mae crynodeb i'w weld yn Adran 4.2 yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, nid yw'n mynd i'r afael â'r holl faterion a nodir. Mae angen gwneud mwy o waith nawr (i) i gysoni'r fframwaith yn agosach â fframwaith perfformiad corfforaethol y Bwrdd Iechyd; (ii) i wneud gwell defnydd o ddata meintiol a meincnodi er mwyn rhoi sail i brosesau asesu; a (iii) i adlewyrchu'r broses o drawsnewid Cynllun Gwella Mamolaeth i fod yn broses gwelliant parhaus. Mae'r Panel wedi cynnig bod gweithdy amlddisgyblaethol arall yn cael ei gynnal yn ystod y cyfnod nesaf er mwyn datblygu cynllun ar gyfer cam nesaf ei ddatblygiad (gweler Camau Nesaf – Cam Gweithredu 4).	PARHAUS (Gweler Camau Nesaf – Cam Gweithredu 4 yn Adroddiad Cynnydd Mis Medi)
Cam Gweithredu 5: Matrics Aeddfedrwydd - Mae angen gwneud mwy o waith datblygu er mwyn enwi camau seiliedig ar ddeilliannau fydd yn galluogi cynnal asesiad gwrthrychol ynghylch beth, ym mhob un o'r meysydd perfformiad, sydd yn gyfystyr â chyflawni elfennau 'Canlyniadau', 'Aeddfedrwydd' a 'Rhagorol' y Matrics Aeddfedrwydd.	Gyda chytundeb y Panel, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gohirio'r gwaith tan y cyfnod adrodd nesaf er mwyn ei alluogi i gael ei gysoni â'r datblygiadau sy'n cael eu cynnal ar lefel gorfforaethol ar hyn o bryd. Ar sail y gwaith sydd wedi cael ei wneud mewn gwasanaethau mamolaeth, mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu'r defnydd o fatricsau aeddfedrwydd yn ei fframwaith ansawdd a pherfformiad corfforaethol. Mae'n bwysig bod IPAAF y gwasanaethau mamolaeth yn gyson â'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd (gweler Camau Nesaf – Cam Gweithredu 4).	PARHAUS (Gweler Camau Nesaf – Cam Gweithredu 4 yn Adroddiad Cynnydd Mis Medi)
Cam Gweithredu 6: Tîm Gwella Mamolaeth - Mae'r Panel yn edrych ymlaen at dderbyn cynigion yr SRO ar gyfer caffael Cyfarwyddwr Gwella Mamolaeth newydd pan fydd yn symud i'w swydd newydd.	Cafodd strwythur diwygiedig ar gyfer y Tîm Gwella Mamolaeth ei gymeradwyo gan y Bwrdd Iechyd ym mis Mehefin 2020, yn dilyn ymgynghoriad â'r Panel a rhanddeiliaid eraill. Mae'r trefniadau diwygiedig yn eu lle i raddau helaeth nawr. Ceir mwy o fanylion yn Adran 8.2 yr adroddiad hwn.	WEDI CWBLHAU
Cam Gweithredu 7: Gwasanaethau Newyddenedigol - Yn ystod y cyfnod adrodd nesaf, bydd y Panel yn rhoi mwy o sylw i'r gwasanaeth newyddenedigol, ac fel cam cyntaf bydd yn gwahodd Neonatolegydd Ymgynghorol i un o gyfarfodydd y Panel er mwyn darparu trosolwg o'r gwasanaeth.	Mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud yn ystod y cam adrodd presennol o ran integreiddio gwelliant y gwasanaeth newyddenedigol i mewn i'r Rhaglen Gwella Mamolaeth yn gyffredinol. Er bod llawer o waith i'w wneud o hyd, mae dealltwriaeth glir o'r mater yn cael ei rhannu ac mae fframwaith cyflawni wedi cael ei roi ar waith. Ceir mwy o fanylion yn Adran 5 yr adroddiad hwn.	WEDI CWBLHAU
Cam Gweithredu 8: Lefelau Staffio - (gweler Atodiad B i weld disgrifiad manwl o'r cam gweithredu gofynnol).	Mae'r cam gweithredu hwn wedi cael ei ddiddymu. Gweler Atodiad B i gael rhagor o wybodaeth.	WEDI CWBLHAU
Cam Gweithredu 9: Canllawiau - (gweler Atodiad B i weld disgrifiad manwl o'r cam gweithredu gofynnol).	Mae'r cam gweithredu hwn wedi cael ei ddiddymu. Gweler Atodiad B i gael rhagor o wybodaeth.	WEDI CWBLHAU

Cam Gweithredu 10: Cynllun Gwella Mamolaeth (Cyflawni) - Gan gydnabod y cyfyngiadau presennol, mae'r Panel yn disgwyl gweld mwy o gyflawni yn erbyn gweddill yr argymhellion MIP yn ystod y cyfnod adrodd nesaf, a ffocws parhaus ar ymgorffori a phrofi'r argymhellion hynny sydd eisoes wedi cael eu cyflawni.	Nodwyd bod 12 yn rhagor o'r 79 cam gweithredu yn y Cynllun Gwella Mamolaeth wedi cael eu cyflawni yn ystod y cyfnod adrodd presennol. Mae hynny'n golygu bod y cyfanswm a gwblhawyd erbyn hyn yn 53. Yn ogystal â hyn, mae 5 argymhelliad arall y nodwyd eu bod wedi'u cyflawni yn ystod cyfnodau blaenorol wedi cael eu hailddilysu, ac mae 6 arall wedi cael eu diddymu oherwydd bod dyblygu a gorgyffwrdd diangen o fewn y Cynllun Gwella Mamolaeth. Mae 20 cam gweithredu ar ôl i'w cyflawni, ac mae pob un o'r rhain ar lefelau amrywiol o'r broses o gael eu cyflawni. Mae esboniad manylach o'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn y Cynllun Gwella Mamolaeth ar gael yn Adran 3 yr adroddiad.	WEDI CWBLHAU
Cam Gweithredu 11: Cynllun Gwella Mamolaeth (Datblygu) - Byddai'r MIP yn elwa o'i ddatblygu ymhellach er mwyn creu cynllun mwy deinamig ac ymatebol sydd yn cael ei ddiweddarau yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni gwelliant parhaus yn hytrach na rhestr o argymhellion.	Mae gwaith datblygu sylweddol wedi cael ei wneud ar y Cynllun Gwella Mamolaeth yn ystod y chwe mis diwethaf, sydd wedi arwain at gynllun diwygiedig a gymeradwywyd gan y Bwrdd Gwella Mamolaeth ar 18 Awst. Mae'r cynllun yn cynnwys cerrig milltir, targedau ac elfennau i'w cyflawni sy'n gliriach, ac mae nawr yn gynllun gwelliant parhaus sy'n cynnwys camau gweithredu tymor hwy, yn ogystal â'r hyn sydd ar ôl i'w gyflawni o blith argymhellion Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr. Mae esboniad manylach ar gael yn Adran 3.5 yr adroddiad hwn.	WEDI CWBLHAU
Cam Gweithredu 12: Cynllun Gwella Mamolaeth (Rhesymoli) - Dylid adolygu gweddill y camau MIP, a'u rhesymoli, eu cyfuno neu eu grwpio pan fo'n briodol er mwyn osgoi dyblygu ac er mwyn enwi'r argymhellion hynny pan fo newid mewn amgylchiadau yn golygu nad ydynt yn berthnasol mwyach.	Mae gwaith datblygu sylweddol wedi cael ei wneud ar y Cynllun Gwella Mamolaeth yn ystod y chwe mis diwethaf, sydd wedi arwain at gynllun diwygiedig a gymeradwywyd gan y Bwrdd Gwella Mamolaeth ar 18 Awst. Er bod modd gweld ac adnabod argymhellion Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr yn y cynllun o hyd, maent wedi cael eu had-drefnu a'u crynhoi i mewn i gynllun gwelliant parhaus tymor hwy. Mae esboniad manylach ar gael yn Adran 3.5 yr adroddiad hwn.	WEDI CWBLHAU
Cam Gweithredu 13: Archwiliadau Dirybudd HIW - Fel rhan o'r cylch cyfarfod rheolaidd, gofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd ddarparu i'r Panel adroddiad eithriad mewn perthynas ag unrhyw gamau sydd yn deillio o archwiliad dirybudd HIW o Ysbyty Tywysog Cymru fydd yn dal heb eu cyflawni ar ddiwedd Mawrth 2020.	Cyflwynwyd adroddiad i'r Bwrdd Gwella Mamolaeth ar 18 Awst 2020, a oedd yn ymwneud â'r prif bwyntiau cysylltiedig â chyflawni'r cynlluniau gweithredu wnaeth ddeillio o'r arolygiadau dirybudd a gynhaliwyd gan HIW yn nhair uned famolaeth BIPCTM. Roedd yr adroddiad yn awgrymu bod y camau gweithredu wedi cael eu cyflawni a bod y gwaith archwilio dilynol wedi cael ei gynnal er mwyn sicrhau bod y camau gweithredu'n dal wedi'u sefydlu mewn ymarfer. O ganlyniad i hynny, doedd dim camau gweithredu heb eu cyflawni ar safle Ysbyty Tywysog Cymru, a doedd dim angen cyflwyno adroddiad ar y prif bwyntiau i'r Panel.	WEDI CWBLHAU

Cam Gweithredu 14: Trosglwyddiadau ac Archwiliadau Sicrwydd - Bydd y Panel yn cynnwys adolygiad arall o drosglwyddiadau ac archwiliadau sicrwydd yn ei raglen o ymweliadau sicrwydd ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf.	Oherwydd y cyfyngiadau ar gyswllt cymdeithasol a theithio yn sgil COVID-19, nid yw'r Panel wedi gallu ymweld â'r ysbytai nac ymgysylltu â staff yn uniongyrchol. Mae adolygiad pellach o dystiolaeth ddogfennol wedi cael ei gynnal ond nid yw wedi bod yn bosibl arsylwi trosglwyddiad na chyfarfod archwilio sicrwydd. O ganlyniad i hynny, mae'r cam gweithredu hwn wedi cael ei ohirio a bydd y Panel yn ailafael ynddo yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.	WEDI GOHIRIO OHERWYDD CYFYNGIADAU COVID-19
---	--	--

11 RHESTR O DERMAU

AMU	Ochr yn ochr ag uned a arweinir gan fydwragedd
Badgernet	System rheoli data cleifion newyddenedigol
BR+	Birthrate plus
CD	Cyfarwyddwr Clinigol
CEO	Prif Swyddog Gweithredol
CHC	Cyngor Iechyd Cymuned
CMB	Cyfarfod y bwrdd clinigol
CMO	Prif Swyddog Meddygol
CNO	Prif Swyddog Nyrsio
COO	Prif Swyddog Gweithredu
DPP	Datblygiad Proffesiynol Parhaus
CSfM	Goruchwylwyr clinigol i fydwragedd
CSR	Cyfraddau toriad Cesaraidd
CTG	Cardiotocograffi
BIPCTM	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
BIPCT	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Datix	Meddalwedd diogelwch cleifion
DON	Cyfarwyddwr Nyrsio
DU	Uned Gyflawni GIG Cymru
EBC	Mae Pob Babi'n Cyfrif
ELCS	Toriad Cesaraidd dewisol
EMCS	Toriad Cesaraidd brys
Euroking	System TG genedlaethol ar gyfer mamolaeth
GAP	Protocol asesu twf
Greatix	Menter seiliedig ar 'Datix' ar gyfer adrodd yn ôl i staff ar adborth cadarnhaol
GROW	Pwysau optimaidd o ystyried y cyfnod beichiogrwydd
BI	Bwrdd Iechyd
AaGIC	Addysg a Gwella Iechyd Cymru
HIE	Enseffalopathi isgemig hypocsig
HIW	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
HOM	Pennaeth Bydwreigiaeth
HOMAG	Grŵp Cyngori Pennaeth Bydwreigiaeth Cymru Gyfan
AD	Adnoddau dynol
HSCSC	Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
HTA	Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol
ICU	Uned Gofal Dwys
IMSOP	Y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth

IOL	Dod â'r broses esgor yn ei blaen
IPAAF	Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd
DPA	Dangosydd perfformiad allweddol
ALI	Awdurdod Lleol
LNU	Uned babanod newydd-anedig leol
LSA MO	Swyddog bydwreigiaeth yr awdurdod arolygu lleol
LSCS	Toriad Cesaraidd y rhan waelod
MBRRACE	Mamau a babanod: Lleihau risg drwy archwiliadau ac ymholiadau cyfrinachol
MDT	Tîm amlddisgyblaethol
MHSS	Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
MIB	Y Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth
MID	Y Cyfarwyddwr Gwella Mamolaeth
MIP	Y Cynllun Gwella Mamolaeth
MITs	System Technoleg Gwybodaeth Mamolaeth (bwydo i mewn i QlikSense)
MLC	Gofal a arweinir gan fydwragedd
MLU	Uned a arweinir gan fydwragedd
MPB	Y Bwrdd Perfformiad Mamolaeth
MS	Aelod o'r Senedd
MSLC	Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth
MVF	Fforwm Lleisiau Mamolaeth
NEWTT	Tracio a throthwy rhybudd cynnar newyddenedigol
NICU	Uned Gofal Dwys i'r Newydd-anedig
NMPA	Archwiliad Amenedigol a Mamolaeth Cenedlaethol
NNAP	Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Cenedlaethol
O&G	Obstetreg a gynaecoleg
OD	Datblygu Sefydliadol
PADR	Adolygiad arfarnu a datblygu personol
PALS	Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion
PCH	Ysbyty Tywysog Cymru
PDM	Bydwraig datblygu ymarfer
POW	Ysbyty Tywysoges Cymru
PSAG	Cipolwg ar statws claf
PSOW	Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
PTR	Gweithio i Wella
Q&S	Ansawdd a diogelwch
QA	Sicrhau ansawdd
QlikSense	Meddalwedd cudd-wybodaeth a dadansoddeg weledol i fusnesau
QSR	Ansawdd, Diogelwch a Risg
RCA	Dadansoddiad o wraidd y broblem
RCA	Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion
RCM	Coleg Brenhinol y Bydwagedd

RCOG	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr
RCPCH	Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
RGH	Ysbyty Brenhinol Gwent
SB	Marw-enedigaeth
SBAR	Acronym ar gyfer marw-enedigaeth, cefndir, asesiad ac ymateb
SCBU	Uned gofal arbennig babanod
SCU	Uned gofal arbennig
SFH	Symffysis uchder y ffwndws
SGA	Bach o ystyried oed y ffetws
SI	Digwyddiad difrifol
SM	Mesurau arbennig
CAMPUS	Acronym ar gyfer Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwylol
SOM	Goruchwyliwr bydwagedd
SRO	Uwch Swyddog Cyfrifol
SUI	Digwyddiad difrifol heb ei gofnodi
SWP	Cynllun De Cymru
TI	Ymyrraeth wedi'i thargedu
Trac	Cronfa ddata fawr o 'fyrddau swydd' ar gyfer y sector cyhoeddus ac iechyd yn y DU
BIP	Bwrdd Iechyd Prifysgol
USS	Sgan uwchsain
WAO	Swyddfa Archwilio Cymru
LIC	Llywodraeth Cymru
WRP	Cronfa Risg Cymru

D.S. Geirfa gyffredinol o dermau sydd wedi cael eu defnyddio yn adroddiadau'r Panel, neu y gellid eu cynnwys yn y dyfodol, a geir yma. Nid yw'r holl dermau wedi cael eu defnyddio yn yr adroddiad penodol hwn o reidrwydd.

